



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Y cod derbyn i ysgolion



Cod Statudol

Cod Statudol dogfen rhif: 005/2013
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2013

Y cod derbyn i ysgolion

| | |
|-------------------------------|--|
| Cynulleidfa | Awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; ysgolion bro ac ysgolion gwirfoddol a reolir; Estyn; ysgrifenyddion cyrff proffesiynol yng Nghymru. |
| Trosolwg | Mae'r Cod hwn yn nodi gofynion ac yn cynnig arweiniad ynghylch y swyddogaethau sydd gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, fforymau derbyn a phaneli apelau derbyn i'w cyflawni mewn perthynas â derbyn i ysgolion. Rhaid i'r cyrff hyn "weithredu yn unol â'r" Cod. |
| Camau i'w cymryd | Sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod erbyn y flwyddyn ysgol 2014/2015. |
| Rhagor o wybodaeth | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 6562 Ffacs: 029 2082 6109 e-bost: SchoolsManagementDivision3@cymru.gsi.gov.uk |
| Copiau ychwanegol | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| Dogfennau cysylltiedig | Gweler Atodiad H. |

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Rhagair y Gweinidog | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| Derbyn i addysg feithrin | 4 |
| Fforymau derbyn – monitro'r cydymffurfio â'r Cod | 4 |
| 2. Pennu'r trefniadau derbyn | 5 |
| Dyletswydd i ystyried yr hyn sydd orau gan rieni a phobl ifanc | 5 |
| Yr egwyddorion i'w dilyn | 5 |
| Y broses i'w dilyn | 6 |
| Blwyddyn benderfynu | 6 |
| Ymgynghori | 6 |
| Nifer derbyn | 8 |
| Penderfynu ynglŷn â'r trefniadau derbyn | 8 |
| Cyhoeddi'r trefniadau derbyn | 8 |
| Gwrthwynebiadau i'r trefniadau derbyn | 9 |
| Gwrthwynebiadau rhieni i'r trefniadau derbyn | 9 |
| Amrywio'r trefniadau derbyn a bennwyd | 10 |
| Trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion newydd | 10 |
| Cyhoeddi un dyddiad ar gyfer dychwelyd ceisiadau ac un dyddiad ar gyfer cynnig lle | 10 |
| Cynnwys y trefniadau derbyn | 11 |
| Gwahardd meini prawf annymunol ar gyfer gor-alw | 11 |
| Canllawiau ynglŷn â phennu meini prawf teg ar gyfer gor-alw | 12 |
| Brodyr a chwirydd disgyblion sy'n dal i fynychu'r ysgol | 13 |
| Plant genedigaethau lluosog (e.e. gefeilliaid neu dripledi) | 14 |
| Angen meddygol | 14 |
| Meini prawf seiliedig-ar-ffydd ar gyfer gor-alw | 14 |
| Arweiniad a roddir gan awdurdodau eglwysig neu grefyddol | 15 |
| Y pellter rhwng y cartref a'r ysgol | 15 |
| Ysgolion ar safleoedd rhanedig | 15 |
| Dalgylchoedd | 16 |
| Canllawiau ychwanegol yn ymwneud ag ysgolion cynradd | 16 |
| Derbyn plant o dan yr oedran arferol ar gyfer cychwyn yn yr ysgol (meithrin) | 16 |
| Ysgolion cynradd sydd â dosbarth meithrin ynghlwm wrthynt | 17 |
| Gohirio mynediad i ysgolion cynradd | 17 |
| Canllawiau ychwanegol ar gyfer ysgolion uwchradd | 17 |
| Canllawiau ychwanegol ar gyfer ysgolion canol | 18 |
| Trefniadau derbyn i'r chweched dosbarth | 18 |
| 3. Rhoi'r trefniadau derbyn ar waith | 20 |
| Ffurflenni cais | 21 |
| Cyfweld | 22 |
| Ymdrin â cheisiadau hwyr a cheisiadau y tu allan i'r rownd derbyn arferol | 22 |
| Plant sy'n derbyn gofal | 23 |
| Plant Sipsiwn a Theithwyr | 24 |

| | |
|--|-----------|
| Rhestri aros | 24 |
| Derbyn y tu allan i'r grŵp oedran arferol | 24 |
| Penderfynu | 25 |
| Rhoi gwybod i rieni | 25 |
| Apelau derbyn | 26 |
| Tynnu cynnig lle yn ôl | 26 |
| Dyletswydd corff llywodraethu i roi penderfyniad awdurdod derbyn ar waith | 27 |
| Pŵer cyfarwyddo'r ALI | 27 |
| Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i drefniadau derbyn ysgolion | 27 |
| Y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod | 27 |
| Plant â datganiadau AAA | 29 |
| Plant ag AAA nad oes ganddynt ddatganiadau | 29 |
| Plant ag anableddau | 29 |
| Plant sy'n ymddwyn yn heriol | 30 |
| Disgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith | 30 |
| Plant anodd eu lleoli | 31 |
| Plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a phlant Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion) | 31 |
| Plant o dramor | 32 |
| Cynlluniau cyfnewid athrawon | 32 |
| Trosglwyddiadau o'r sector annibynnol | 32 |
| Ceisiadau a wneir yn y DU ar gyfer plant sy'n byw dramor | 33 |
| Gwisg ysgol | 33 |
| Teithio gan ddysgwyr | 33 |
| Atodiad A: Yr amserlen derbyn | 34 |
| Amserlen enghreifftiol | 34 |
| Atodiad B: Meini prawf ar gyfer gor-alw | 35 |
| Ysgolion cymunedol | 35 |
| Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr | 35 |
| Atodiad C: Ysgolion preswyl | 37 |
| Gweithdrefnau derbyn | 37 |
| Angen lle preswyl | 37 |
| Addasrwydd ar gyfer lle preswyl | 38 |
| Diffinio addasrwydd | 38 |
| Paratoi ar gyfer cyfweliad a'i gynnal | 39 |
| Atodiad D: Fforymau derbyn | 40 |
| Gofyniad cyfreithiol | 40 |
| Rôl fforymau derbyn | 40 |
| Sicrhau trefn deg | 41 |
| Adroddiadau blynyddol am effeithiolrwydd trefniadau derbyn lleol | 41 |
| Aelodaeth | 42 |
| Cyfnod gwasanaeth | 42 |
| Gweithdrefn ar gyfer cyfarfodydd a phenodi swyddogion | 43 |
| Cyhoeddi cyngor a gwrthwynebu | 43 |
| Atodiad E: Deddfwriaeth berthnasol arall | 44 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | 44 |
| Y Ddeddf Hawliau Dynol | 45 |

| | |
|--|-----------|
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 | 45 |
| Atodiad F: Ffurflen gais enghreifftiol | 46 |
| Atodiad G: Cychwyn | 49 |
| Atodiad H: Dogfennau cysylltiedig | 50 |
| Geirfa | 52 |


Rhagair y Gweinidog

Gall y broses o ddechrau ysgol neu o drosglwyddo rhwng ysgolion fod yn gyfnod o ansicrwydd a gofid, felly mae'n hanfodol bod yn deg ac yn agored a chymhwyso'r egwyddorion hynny i bob agwedd ar dderbyn i ysgolion. Gall system dderbyn sy'n adlewyrchu hynny ac sy'n gweithio'n iawn chwarae rhan hanfodol o ran helpu i leihau pryderon. Mae hefyd yn hanfodol o ran sicrhau cyfle cyfartal. Bwriedir i'r Cod hwn fod yn sail i fwy o welliannau i systemau derbyn.

Cyhoeddwyd y Cod diweddaraf yn 2009 ac roedd bryd hynny'n rhoi'r arweiniad diweddaraf i bawb a oedd yn ymwneud â derbyn i ysgolion. Roedd y Cod hefyd yn ceisio diogelu buddiannau rhieni, plant a phobl ifanc drwy sicrhau bod derbyniadau i ysgolion yn cael eu gweinyddu yn y ffordd decaf posibl. Mae'r Cod hwn yn adeiladu ar waith da blaenorol ac yn ceisio gwella'r broses a'i gwneud yn gliriach i bawb.

Dylai'r Cod hwn egluro'r broses ymhellach i bawb sydd â diddordeb mewn derbyn i ysgolion ac apelau derbyn i ysgolion, helpu awdurdodau derbyn i gyflawni eu dyletswyddau'n gywir, a gwella arferion gweithio.

Rwy'n siŵr y caiff y Cod hwn ei groesawu gan bawb sydd â diddordeb mewn trefniadau derbyn i ysgolion. Rhagwelaf y caiff effaith gadarnhaol ar y broses derbyn i ysgolion yng Nghymru.



Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Crynodeb

Mae'r Cod hwn ar Dderbyn i Ysgolion ("y Cod") yn cynnwys canllawiau ymarferol ac yn gorfodi gofynion, ar awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn, ynglŷn â chyflawni eu dyletswyddau derbyn. Mae gan awdurdodau lleol ("ALLau"), cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, paneli apelau derbyn a fforymau derbyn swyddogaethau derbyn i ysgolion o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau sy'n egluro'r nodau, yr amcanion a materion eraill yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau derbyn a **rhaid** i'r holl gyrff neu unigolion perthnasol "weithredu'n unol" â'r Cod. Mae'r Cod yn disodli Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2009.

Bydd y Cod yn helpu pawb sydd â diddordeb mewn trefniadau derbyn i ysgolion ac apelau derbyn i ysgolion ac yn helpu i sicrhau bod y system dderbyn yn gweithio er budd ysgolion a disgyblion. Y prif newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan y Cod yw:

- gofyniad bod meini prawf gor-alw awdurdodau derbyn yn cynnwys yn ogystal â 'phlant sy'n derbyn gofal', 'blant a oedd yn arfer derbyn gofal' fel y maen prawf cyntaf ym mhob achos.
- pennu dyddiadau cynnig cyffredin pan fydd yn **rhaid** i lythyrau penderfynu gael eu cyflwyno ym mhob awdurdod lleol fesul cam.
- gofyniad bod rhestri aros yn cael eu cynnal tan 30 Medi pan fo gan ysgolion fwy o geisiadau nag o leoedd.
- eithriadau ychwanegol i'r ddeddfwriaeth maint dosbarthiadau.
- mwy o gyfleoedd i amrywio'r trefniadau derbyn presennol heb gyfeirio at Weinidogion Cymru.

1. Cyflwyniad

1.1 Gwneir y Cod dan adran 84 o [Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998](#) (a elwir yn [Ddeddf 1998](#) yn y Cod hwn) fel y'i diwygiwyd gan adran 40 o [Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006](#) (a elwir yn [Ddeddf 2006](#) yn y Cod hwn), sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi Cod ar gyfer cyflawni swyddogaethau derbyn gan:

- **Awdurdodau derbyn** – ALLau yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, oni bai bod y swyddogaeth, o dan adran 88(1)(a)(ii) o [Ddeddf 1998](#), wedi'i dirprwyo'n llwyr i'r corff llywodraethu. Cyrff llywodraethu yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr.
- **Cyrff llywodraethu** (pan nad ydynt yn awdurdodau derbyn).
- **ALLau** (pan nad ydynt yn gweithredu fel awdurdodau derbyn).
- **Fforymau derbyn**.
- **Paneli apelau derbyn**.

Mae gan bob un o'r cyrff hyn ddyletswydd statudol i "weithredu'n unol" â'r Cod hwn ac â'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion.

1.2 Mae'r Cod hwn yn disodli'r [Cod blaenorol ar gyfer Derbyn i Ysgolion](#) (2009) ac mae'n berthnasol i'r holl dderbyniadau i ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd (gan gynnwys y chweched dosbarth (Blwyddyn 12) ac ysgolion canol. Daw i rym ar 8 Gorffennaf 2013 ac mae'n berthnasol i drefniadau ar gyfer derbyn plant o Fedi 2014/15 ymlaen. (Gweler Atodiad G am fanylion ynghylch pryd y daw darpariaethau penodol i rym.) Yn gyffredinol, **rhaid** dilyn y Cod ar unwaith wrth weinyddu'r broses dderbyn o ddydd i ddydd. Pan fyddai newidiadau a gyflwynir gan y Cod yn dibynnu ar ymgynghori, penderfyniadau a chyhoeddi trefniadau derbyn, disgwylid i'r rhain gael eu cynnwys yn y trefniadau a gyhoeddwyd ar gyfer 2015/16 ymlaen. Dylid darllen y Cod ochr yn ochr â'r [Cod Apelau Derbyn i Ysgolion](#) ac arweiniad a deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar dderbyn ac ar apelau derbyn yng Nghymru.

1.3 Mae'r Cod yn cyfeirio at y gofynion statudol fel y maent ar hyn o bryd (h.y. a orfodir drwy ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth) ac mae'r Cod ei hun yn gorfodi gofynion gorfodol y mae'n **rhaid** i'r cyrff hynny a restrir ym mharagraff 1.1 uchod gydymffurfio â hwy. Ceir cyfeiriad at y ddarpariaeth statudol berthnasol yn y testun neu yn y troednodyn fel sy'n briodol. Lle bydd y Cod hwn (neu ddarpariaethau statudol) yn gorfodi gofynion gorfodol dywedir bod yn **rhaid** i'r cyrff perthnasol gydymffurfio â'r gofyniad penodol neu â'r ddarpariaeth benodol. Lle bydd y Cod hwn yn gwahardd arferion, dywedir bod yn **rhaid** i'r corff neu'r cyrff perthnasol **beidio** â dilyn yr arfer hwn.

1.4 Mae'r Cod hwn hefyd yn cynnwys canllawiau y dylai'r cyrff perthnasol eu dilyn oni allant ddangos bod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny. Lle bydd y canllawiau'n cyfeirio at arferion da, bydd y Cod yn dweud y **dylai'r** cyrff perthnasol ddilyn y canllawiau penodol. Ar y llaw arall, lle bydd y canllawiau'n cyfeirio at weithredoedd sydd fel arfer yn cael eu hystyried yn arferion gwael, bydd y Cod yn dweud **na ddylid** dilyn yr arfer, er y gall fod amgylchiadau eithriadol lle bydd modd cyfiawnhau hynny.

1.5 Oni fydd awdurdod neu gorff yn cydymffurfio â'r darpariaethau gorfodol yn y Cod hwn, gallai hynny arwain at gyflwyno gwrthwynebiad statudol (gweler paragraff 2.14) neu gŵyn i Weinidogion Cymru. Oni ddilyni'r canllawiau'r Cod hwn, gall hynny hefyd arwain at

gadarnhau gwrthwynebiad neu gŵyn heblaw bod yr awdurdodau derbyn yn gallu cyfiawnhau gwyro oddi wrth y canllawiau hynny.

1.6 Nid yw'r Cod hwn yn ceisio rhoi arweiniad ar bopeth. Bydd amgylchiadau lleol yn amrywio'n fawr a'r awdurdodau derbyn sydd yn y lle gorau i arwain o ran ystyried, ar y cyd â phartneriaid yn eu hardal, sut mae diwallu anghenion rhieni a phlant. Nod y Cod hwn yw adeiladu ar sail yr arferion da hynny sy'n bodoli eisoes.

1.7 Bwriedir y Cod yn bennaf ar gyfer y rheini sy'n gyfrifol am benderfynu ynglŷn â'r trefniadau derbyn a'u rhoi ar waith ac ar gyfer aelodau paneli apêl a'u clercod ond mae'n bosibl y bydd o fudd i rieni ac i bobl eraill hefyd.

Derbyn i addysg feithrin

1.8 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i dderbyn i ysgolion cynradd, uwchradd a chanol yn wahanol i'r ddeddfwriaeth ar gyfer ysgolion meithrin neu ar gyfer plant a dderbynnir i ddosbarth meithrin ysgol a gynhelir (gweler paragraff 2.57 i 2.59). Mae adran 98 o Ddeddf 1998 (fel y'i diwygiwyd¹) yn egluro mai'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am benderfynu ynglŷn â derbyn i'r dosbarth meithrin yn achos ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ac yn yr ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir y dirprwywyd y cyfrifoldeb dros drefniadau derbyn iddynt. Yr ALI sy'n gyfrifol am benderfynu ynglŷn â derbyn i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cymunedol eraill ac mewn ysgolion gwirfoddol eraill a reolir.

1.9 **Dylai'r** awdurdod derbyn nodi'n glir drefniadau derbyn ar wahân ar gyfer y dosbarth meithrin. [DS: **dylid** sefydlu meini prawf ar gyfer gor-alw yn defnyddio'r un egwyddorion ag ar gyfer darpariaeth statudol]. **Nid yw** lle mewn dosbarth meithrin yn gwarantu lle yn y dosbarth derbyn.

1.10 Dim ond i ddosbarthiadau mewn ysgolion a gynhelir sy'n cynnwys disgyblion y bydd y mwyafrif yn troi'n bum mlwydd oed, chwe blwydd oed a saith mlwydd oed yn ystod y flwyddyn ysgol y mae'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod yn berthnasol. Felly, ni fydd y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod yn berthnasol i ddosbarthiadau meithrin lle bydd y mwyafrif o'r disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth hwnnw yn iau na'r oedrannau a nodwyd uchod.

Fforymau derbyn – monitro'r cydymffurfio â'r Cod

1.11 **Rhaid** i fforymau derbyn fonitro'r cydymffurfio â'r Cod hwn. Ceir manylion ynglŷn â'u rôl yn hyn o beth yn Atodiad D, ynghyd â'r wybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad blynyddol gorfodol a roddir i Lywodraeth Cymru at ddibenion monitro.

¹ Fe wnaeth [Deddf Addysg 2002](#), Atodlen 4, paragraff 12 ddiwygio adran 98 o Ddeddf 1998.

2. Pennu'r trefniadau derbyn

Dyletswydd i ystyried yr hyn sydd orau gan rieni a phobl ifanc

2.1 **Rhaid** i awdurdodau derbyn wneud trefniadau sy'n galluogi rhieni² plant yn eu hardal, a phobl ifanc yn achos derbyniadau chweched dosbarth, i ddweud pa ysgol a fyddai orau ganddynt ac i roi rhesymau dros y dewis hwnnw. Pan fo rhiant neu berson ifanc yn mynegi dewis yn unol â'r trefniadau hynny, **rhaid** i ALLau a chyrff llywodraethu gydymffurfio â'r dewis hwnnw, os nad yw'r eithriadau a geir yn [Neddf 1998](#)³ yn berthnasol. Gellir crynhoi'r rhain fel hyn:

- Lle byddai cydymffurfio â'r dewis yn anafanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon (gan gynnwys anfantais a allai godi oherwydd bod angen cymryd camau perthnasol i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod).
- Lle mae'r trefniadau derbyn i'r chweched dosbarth mewn ysgol yn dibynnu'n llwyr ar dethol ar sail gallu neu ddawn ac y byddai cydymffurfio â'r dewis yn anghydnaws â dethol dan y trefniadau hynny.
- Lle bydd plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy a'r gwaharddiad diweddaraf wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yr egwyddorion i'w dilyn

2.2 Wrth lunio'u trefniadau derbyn, rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau bod yr arferion a'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ynglŷn â dyrannu lleoedd mewn ysgolion:

- Yn glir yn yr ystyr nad oes dim amheuaeth yn eu cylch a'u bod yn hawdd eu deall. Bydd trefniadau amwys yn arwain at ansicrwydd a gall hyn gyfyngu ar allu rhieni i wneud dewis deallus ar gyfer eu plant.
- Yn wrthrychol ac wedi'u seilio ar ffeithiau profadwy. **Rhaid** i awdurdodau derbyn a chyrff llywodraethu **beidio** â gwneud penderfyniadau goddrychol, na defnyddio meini prawf sy'n oddrychol neu'n fympwyol eu natur.
- Yn gyfiawn o ran eu gweithdrefn a hefyd yn deg i bob grŵp o blant (gan gynnwys y rheini y mae ganddynt anghenion addysgol arbennig (AAA), anabledau, y rheini sydd dan ofal cyhoeddus, neu sydd efallai'n ofalwyr ifanc).
- Yn sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn â derbyn ar gael yn rhwydd i rieni neu ofalwyr a'i bod yn gymorth iddynt (Yn ôl y Rheoliadau, mae'n ofynnol i'r ALI gynhyrchu prosectws cyfansawdd sy'n egluro'r trefniadau derbyn ar gyfer pob ysgol yn ei ardal. Gweler paragraff 2.12).
- Yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac wedi cael eu pennu'n unol â'r gofynion statudol ac â darpariaethau'r Cod hwn. Gall methiant i gydymffurfio â gofyniad statudol neu unrhyw gynnig i ddefnyddio trefniadau anghyfreithlon gael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru a fydd yn gallu defnyddio'u pwerau ymyrryd⁴ i roi cyfarwyddyd i orfodi'r gofyniad statudol neu i atal gweithred anghyfreithlon.

² Adran 576 o Ddeddf Addysg 1996.

³ Adrannau 86, 86A, 86B, 86(3) ac 87 o [Ddeddf 1998](#).

⁴ O dan Bennod 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Y broses i'w dilyn

Blwyddyn benderfynu

2.3 **Rhaid** ymgynghori ynghylch trefniadau derbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir⁵ rhwng 1 Medi ac 1 Mawrth, a'u pennu erbyn 15 Ebrill, yn y flwyddyn ysgol (y 'flwyddyn benderfynu'⁶) sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi. Cam cyntaf y broses yw i'r awdurdod derbyn lunio trefniadau arfaethedig yn unol â'r egwyddorion a restrwyd uchod. Yna, **rhaid** ymgynghori ynglŷn â'r trefniadau arfaethedig hyn (ac eithrio lle y nodir isod).

Ymgynghori

2.4 **Rhaid** i ALIau ymgynghori bob blwyddyn ynglŷn â'r trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgolion hynny y maent yn awdurdod derbyn ar eu cyfer. Yn ogystal, **rhaid** i gyrff llywodraethu pan fyddant hefyd yn awdurdod derbyn ar gyfer ysgol ymgynghori bob blwyddyn, os nad ydynt wedi ymgynghori ynglŷn â'u trefniadau arfaethedig o fewn y ddwy flynedd benderfynu flaenorol, ac nad oes newid wedi bod i'r trefniadau hynny na gwrthwynebiad wedi'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ynglŷn â'u trefniadau derbyn yn ystod y pum mlynedd blaenorol. Yn ogystal â hyn, **rhaid** i'r ALI sy'n cynnal yr ysgol fod wedi hysbysu Gweinidogion Cymru bod pob awdurdod derbyn yn yr ardal berthnasol⁷ wedi ymgynghori yn ôl y gofyn yn y flwyddyn benderfynu berthnasol. Rhoddir yr wybodaeth hon i Weinidogion Cymru yn adroddiad blynyddol y fforwm derbyn.

2.5 **Rhestrir y cyrff y mae'n rhaid i awdurdodau derbyn ymgynghori â hwy yn y tabl canlynol:**

| Awdurdod Derbyn | Ymgynghoreion |
|---|---|
| ALIau. | <ul style="list-style-type: none">• Corff llywodraethu'r ysgolion perthnasol.• Pob ALI cyffiniol.• Awdurdodau derbyn pob ysgol arall a gynhelir yn yr ardal berthnasol.• Cyrff llywodraethu pob ysgol arall yn yr ardal berthnasol (h.y. ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir nad yw'r pwerau derbyn wedi'u dirprwyo iddynt).• Yn achos ysgolion crefyddol eu cymeriad, y corff neu'r unigolyn sy'n cynrychioli'r grefydd neu'r enwad crefyddol dan sylw. |
| Cyrff llywodraethu ysgolion cynradd sefydledig ac ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyr, ac ysgolion cynradd cymunedol ac ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir y dirprwywyd y cyfrifoldeb dros drefniadau derbyn iddynt. | <ul style="list-style-type: none">• Yr ALI sy'n eu cynnal.• Awdurdodau derbyn ar gyfer pob ysgol gynradd arall a gynhelir yn yr ardal berthnasol.• Unrhyw ALI y mae ei ardal yn ffinio ar yr ardal berthnasol.• Cyrff llywodraethu pob ysgol gynradd |

⁵ Adran 20 o [Ddeddf 1998](#).

⁶ [Rheoliadau Addysg \(Penderfynu Trefniadau Derbyn\) \(Cymru\) 2006](#).

⁷ [Rheoliadau Addysg \(Meysydd Perthnasol ar gyfer Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn\) 1999](#)

| | <p>arall yn yr ardal berthnasol (h.y. ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir nad yw'r pwerau derbyn wedi'u dirprwyo iddynt).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn achos ysgolion crefyddol eu cymeriad, y corff neu'r unigolyn sy'n cynrychioli'r grefydd neu'r enwad crefyddol dan sylw. |
|--|---|
| Awdurdod Derbyn | Ymgynghoreion |
| <p>Cyrff llywodraethu ysgolion uwchradd sefydledig ac ysgolion uwchradd gwirfoddol a gynorthwyr, ac ysgolion uwchradd cymunedol ac ysgolion uwchradd gwirfoddol a reolir y dirprwywyd y cyfrifoldeb dros drefniadau derbyn iddynt.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Yr ALI sy'n eu cynnal. • Awdurdodau derbyn ar gyfer pob ysgol arall a gynhelir yn yr ardal berthnasol. • Unrhyw ALI y mae ei ardal yn ffinio ar yr ardal berthnasol. • Cyrff llywodraethu pob ysgol arall yn yr ardal berthnasol (h.y. ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir nad yw'r pwerau derbyn wedi'u dirprwyo iddynt). • Yn achos ysgolion crefyddol eu cymeriad, y corff neu'r unigolyn sy'n cynrychioli'r grefydd neu'r enwad crefyddol dan sylw. |

2.6 **Rhestrir y cyrff y dylai awdurdodau derbyn ymgynghori â hwy hefyd yn y tabl canlynol:**

| Awdurdod Derbyn | Ymgynghoreion |
|---|---|
| <p>ALlau.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Y fforwm derbyn sy'n gwasanaethu'r ardal berthnasol. • Lle cynigir newid sylweddol, rhieni'r plant y mae hyn yn debygol o effeithio arnynt. |
| <p>Cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir y dirprwywyd y cyfrifoldeb dros drefniadau derbyn iddynt.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Y fforwm derbyn sy'n gwasanaethu'r ardal berthnasol. • Yn achos ysgol a ddynodwyd yn ysgol grefyddol ei chymeriad, awdurdod yr esgobaeth berthnasol. • Lle cynigir newid sylweddol, rhieni'r plant y mae hyn yn debygol o effeithio arnynt. |

2.7 **Rhaid** i'r ymgynghori fod yn ymgynghori ysgrifenedig a **rhaid** iddo gynnwys manylion llawn y trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer pob ysgol, gan gynnwys:

- Y niferoedd a dderbynnir ar gyfer unrhyw grŵp oedran y derbynnir plant iddo fel arfer (y grwpiau oedran perthnasol).
- Y gweithdrefnau ar gyfer ymgeisio a'r amserlen ar gyfer y broses dderbyn.

- c. Y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer gor-alw.
- d. Unrhyw ofynion ar wahân ar gyfer derbyn a'r meini prawf ar gyfer gor-alw am leoedd yn y chweched dosbarth.
- e. Y trefniadau a'r meini prawf ar gyfer gor-alw am leoedd meithrin, os yw hynny'n berthnasol.
- f. Gwybodaeth ynglŷn â sut mae rhestri aros yn gweithredu ac am faint y cânt eu cadw (h.y. **rhaid** i awdurdodau derbyn eu cadw tan 30 Medi yn y flwyddyn derbyn a thu hwnt i hynny yn ôl disgrisiwn yr awdurdodau derbyn).
- g. Gwybodaeth ynglŷn â thrin ceisiadau hwyr (h.y. y rheini sy'n methu'r dyddiad cau) a chyflwyno a phrosesu ceisiadau y tu allan i'r rownd derbyn arferol (gweler paragraff 3.15 i 3.21).
- h. Manylion ynglŷn â sut y rhoddir gwybod i rieni am benderfyniadau derbyn ac am sut mae defnyddio'u hawl i apelio.
- i. Lle bydd gan ysgol drefniadau dethol rhannol eisoes⁸, y drefn ar gyfer gweithredu'r trefniadau dethol rhannol hynny.
- j. Gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed ar gyfer bandio disgyblion.
- k. Mapiau o'r dalgylch (lle bo hynny'n briodol).

2.8 **Rhaid** i'r ymgynghori **beidio** â chychwyn cyn dechrau'r flwyddyn benderfynu (1 Medi) a **rhaid** ei gwblhau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu honno.

Nifer derbyn

2.9 Y nifer derbyn ar gyfer ysgol yw nifer y disgyblion y ceir eu derbyn i grŵp blwyddyn. **Rhaid** i awdurdodau derbyn ystyried y 'nifer derbyn dangosol' ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Cyfrifir y nifer derbyn dangosol drwy ddefnyddio'r dull asesu capasiti yn yr arweiniad a geir yn y ddogfen '[Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru](#)'. Mae'r arweiniad hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk.

Penderfynu ynglŷn â'r trefniadau derbyn

2.10 Ar ôl gorffen ymgynghori, **rhaid** i awdurdodau derbyn bennu eu trefniadau derbyn naill ai yn eu ffurf wreiddiol neu gydag unrhyw addasiadau a wêl yr awdurdod yn dda erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn benderfynu. Yna, **rhaid** iddynt hysbysu'n ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod bawb yr ymgynghorwyd â hwy (neu y byddent wedi ymgynghori â hwy oni fuasai'r eithriad ym mharagraff 2.4 yn berthnasol) ynglŷn â'r trefniadau a bennwyd.

Cyhoeddi'r trefniadau derbyn

2.11 Lle bydd yr awdurdod derbyn wedi penderfynu ar nifer derbyn ar gyfer grŵp oedran perthnasol sy'n is na'r nifer derbyn dangosol cyfredol, a nodwyd drwy'r broses asesu capasiti, ar gyfer y grŵp oedran hwnnw, neu lle bydd y trefniadau derbyn yn caniatáu dethol disgyblion ar sail gallu, **rhaid** cyhoeddi'r rhain mewn papur newydd lleol o fewn 14 diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad. **Rhaid** i'r manylion a gyhoeddir gynnwys esboniad ynglŷn â hawl rhieni i gyflwyno gwrthwynebiad gerbron Gweinidogion Cymru i drefniadau dethol o'r fath neu i'r nifer derbyn is. **Dylai'r** awdurdod derbyn ymgynghori â rhieni ac â phartion eraill sydd â diddordeb ynglŷn â'i fwriad i bennu nifer is.

2.12 **Rhaid** i bob ALL gyhoeddi prospectws cyfansawdd bob blwyddyn yn rhestru'r trefniadau derbyn a bennwyd (gan gynnwys amserlen ar gyfer y broses dderbyn sy'n nodi'r

⁸ Fel y'i diffinnir gan adran 100 o [Ddeddf 1998](#).

dyddiadau perthnasol ar gyfer derbyn a phenderfynu ar geisiadau ac ar gyfer derbyn apeliadau) ar gyfer **pob** ysgol a gynhelir yn ei ardal⁹ a sicrhau bod y trefniadau diweddaraf wedi'u cynnwys. **Rhaid** cyhoeddi'r prospectws hwn erbyn 1 Hydref fan hwyraf yn y flwyddyn ysgol gyhoeddi a heb fod yn ddiweddarach na chwe wythnos cyn y dyddiad olaf pan gaiff rhieni ddweud pa ysgol a fyddai orau ganddynt ar gyfer y flwyddyn derbyn i ysgolion.

2.13 **Rhaid** i awdurdodau derbyn ar wahân i ALLau sicrhau eu bod yn rhoi copi i'r ALI perthnasol o'r trefniadau derbyn a bennwyd. **Dylent** wneud hynny erbyn 1 Mehefin fan hwyraf er mwyn i'r ALI gydymffurfio â'r gofynion cyhoeddi hyn. **Dylai** ALLau wirio'r wybodaeth hon gyda'r holl gyfranwyr lle bo modd, cyn cyhoeddi.

Gwrthwynebiadau i'r trefniadau derbyn

2.14 Os bydd y cyrff a restrir yn ymgylgoreion ym mharagraff 2.5 yn dymuno gwrthwynebu'r trefniadau derbyn a bennwyd, **rhaid** iddynt wneud hynny drwy ysgrifennu at Weinidogion Cymru o fewn chwe wythnos i'r dyddiad pan gawsant eu hysbysu bod y trefniadau wedi'u pennu¹⁰. Dim ond os bydd Gweinidogion Cymru'n fodlon nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r gwrthwynebiad fod wedi cyrraedd yn gynharach nag a wnaeth yr ystyrir gwrthwynebiadau a dderbynnir yn hwyrach na hyn.

2.15 Fodd bynnag, ni chaiff corff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir (nad oes pwerau derbyn wedi'u dirprwyo iddo) wrthwynebu:

- Y trefniadau derbyn ar gyfer unrhyw ysgol gymunedol arall neu ysgol wirfoddol a reolir arall yn yr ardal berthnasol y mae'r ALI yn awdurdod derbyn ar ei chyfer, neu
- Y trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol y maent yn gorff llywodraethu arni, onid yw'r gwrthwynebiad yn ymwneud â phennu'r nifer derbyn ar gyfer yr ysgol honno (gweler paragraff 2.9).

2.16 Ni ellir gwrthwynebu os mai hanfod y gwrthwynebiad yw ceisio newid y trefniadau derbyn nad oes ond modd eu newid drwy gyhoeddi cynigion statudol, er enghraifft, cyflwyno bandio ar gyfer disgyblion neu dderbyn un rhyw yn unig.

Gwrthwynebiadau rhieni i'r trefniadau derbyn

2.17 Caiff rhieni sy'n gymwys i wrthwynebu (gweler paragraff 2.19) wneud hynny os oes trefniadau dethol 'sy'n bodoli eisoes', h.y. trefniadau ar gyfer dethol ar sail gallu sydd wedi bodoli ers dechrau blwyddyn ysgol 1997/98. Fodd bynnag, nid yw'r hawl hon i wrthwynebu'n berthnasol i fandiio disgyblion nac i dderbyn disgyblion i'r chweched dosbarth.

2.18 Hefyd, caiff rhieni cymwys wrthwynebu nifer derbyn a gynigir ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn os yw hwnnw wedi'i bennu'n is na'r hyn a geir drwy ddefnyddio'r dull asesu capasiti yn yr arweiniad a geir yn y ddogfen '[Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru](#)' (gweler paragraff 2.9).

2.19 Er mwyn bod yn gymwys i wrthwynebu trefniadau dethol sy'n bodoli eisoes, **rhaid** i riant fod yn byw yn yr ardal berthnasol ar gyfer yr ysgol a bod â phlentyn o oedran ysgol

⁹. [Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion \(Cymru\) 2011](#).

¹⁰. [Rheoliadau Addysg \(Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn\) \(Cymru\) 2006](#).

gorfodol mewn addysg gynradd. Er mwyn bod yn gymwys i wrthwynebu'r nifer derbyn a gynigir, **rhaidd** i riant fod yn byw yn yr ardal berthnasol ar gyfer yr ysgol a bod â phlentyn rhwng 2 a 5 oed neu blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol ac yn cael addysg gynradd. Dim ond os bydd pum rhiant neu fwy'n gwneud yr un gwrthwynebiad neu'r un gwrthwynebiad yn ei hanfod i'r un trefniadau derbyn y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu yn ei gylch.

Amrywio'r trefniadau derbyn a bennwyd

2.20 Ar ôl pennu'r trefniadau derbyn ar gyfer blwyddyn ysgol, dim ond dan yr amgylchiadau hyn y ceir eu hamrywio:

- a. Mae'r amgylchiadau wedi newid yn sylweddol (e.e. tân wedi dinistrio ystafell ddosbarth).
- b. Mae camgymeriad diamheuol yn y trefniadau a bennwyd.
- c. Mae awdurdod derbyn wedi cael gwybod bod ei drefniadau derbyn yn cynnwys arferion anghyfreithlon.
- d. Mae awdurdod derbyn yn gweld angen diwygio'i drefniadau derbyn yng ngoleuni phenderfyniad Gweinidogion Cymru ynglŷn ag ysgol arall sydd â'r un trefniadau derbyn neu'r un trefniadau derbyn yn eu hanfod.
- e. Mae hepgoriad neu wall argraffu yn y trefniadau a bennwyd.
- f. Mae angen amrywio'r nifer derbyn a bennwyd, y dalgychoedd neu drefn y meini prawf gor-alw er mwyn gweithredu'r cynigion a gymeradwywyd o ran trefniadaeth ysgolion¹¹.
- g. Nid yw'r trefniadau derbyn yn cydymffurfio â darpariaethau statudol y Cod hwn.

2.21 Yn achos a, b, c a d uchod, **rhaidd** i'r awdurdod derbyn yn gyntaf roi gwybod i'r ymgynghorion a restrir ym mharagraff 2.5 uchod am yr amrywiad a gynigir, ac yna gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru iddynt benderfynu yn ei gylch. Nid oes gofyn dilyn y broses hon yng nghyswllt pwynt e, f ac g.

Trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion newydd

2.22 Roedd [Rheoliadau Ysgolion Newydd \(Derbyniadau\) \(Cymru\) 2006](#) yn esbonio proses pennu'r trefniadau derbyn cychwynnol ar gyfer ysgolion newydd. **Dylid** gwneud y trefniadau hyn yn unol â'r egwyddorion, y gofynion a'r arweiniad a geir yn y Cod hwn.

Cyhoeddi un dyddiad ar gyfer dychwelyd ceisiadau ac un dyddiad ar gyfer cynnig lle

2.23 Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau derbyn ac osgoi dryswch ar ran rhieni, **rhaidd** i bob awdurdod derbyn mewn unrhyw ardal ALL gael un dyddiad ar gyfer dychwelyd ceisiadau cynradd a cheisiadau uwchradd ar gyfer y flwyddyn derbyn arferol – gellir cytuno ar ddyddiadau gwahanol ar gyfer ceisiadau cynradd a cheisiadau uwchradd. **Dylai'r** awdurdodau derbyn ymgynghori â'u hawdurdodau cyfagos drwy eu fforwm derbyn i gytuno ar un dyddiad ar gyfer dychwelyd ffurflenni cais.

2.24 **Rhaidd** i awdurdodau derbyn sicrhau bod llythyrau cynnig ar gyfer ceisiadau ysgolion uwchradd yn cael eu gwneud ar y Diwrnod Cynnig Uwchradd penodedig, **1**

¹¹ [Rheoliadau Derbyn i Ysgolion \(Amrywiadau i'r Trefniadau Derbyn\) \(Cymru\) 2013](#).

Mawrth neu'r diwrnod gwaith nesaf¹². Yn achos ceisiadau ysgolion cynradd, **dylai** pob awdurdod derbyn sicrhau bod pob cynnig yn cael ei wneud ar y Diwrnod Cynnig Cynradd penodedig, **16 Ebrill neu'r diwrnod gwaith nesaf** nes bod rheoliadau'n mynnu bod yn **rhaidd** i awdurdodau derbyn sicrhau bod pob cynnig yn cael ei wneud ar y Diwrnod Cynnig Cynradd penodedig¹³ neu'r diwrnod gwaith nesaf.

Cynnwys y trefniadau derbyn

2.25 **Rhaidd** i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru (gan gynnwys ysgolion y dynodwyd eu bod yn ysgolion crefyddol eu cymeriad), os oes ganddynt ddigon o leoedd ar gael (hyd at a chan gynnwys y nifer derbyn)¹⁴, cynnig lle i bob plentyn sydd wedi ymgeisio (ac eithrio'u bod wedi'u gwahardd ddwywaith, gweler paragraffau 3.58 i 3.60). Fodd bynnag, bydd mwy o geisiadau'n cyrraedd ar gyfer rhai ysgolion nag sydd o leoedd. Felly, **rhaidd** i awdurdodau derbyn bennu meini prawf, fel rhan o'u trefniadau derbyn, sy'n dweud sut y caiff lleoedd eu dyrannu os bydd gor-alw. **Rhaidd** i awdurdodau sicrhau bod y meini prawf hyn yn rhesymol, yn glir, yn wrthrychol, yn weithdrefnol deg, ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol. **Rhaidd** i awdurdodau derbyn sicrhau na fydd eu trefniadau'n rhoi plentyn o grŵp cymdeithasol neu hiliol penodol, neu blentyn ag anghenion addysgol arbennig, dan anfantais annheg, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. **Rhaidd** iddo nodi'n glir ym mha drefn y caiff y meini prawf gor-alw eu defnyddio. **Rhaidd** i drefniadau derbyn gynnwys darpariaeth effeithiol, glir a theg ar gyfer dewis rhwng ymgeiswyr os bydd angen gwahaniaethu rhyngddynt wrth ddefnyddio'r meini prawf. **Rhaidd** sicrhau **nad** yw'r meini prawf yn gofyn am 'ddechongli' o unrhyw fath a **rhaidd** iddynt fod yn glir ac yn ddiamwys.

2.26 Mae'r bennod hon yn gwahardd defnyddio meini prawf annheg neu annymunol ar gyfer gor-alw. Mae hefyd yn cynnig canllawiau ac enghreifftiau o arferion da ar gyfer awdurdodau derbyn i'w cynorthwyo i bennu meini prawf sy'n deg i bob plentyn ac i'w teuluoedd.

2.27 Yn y bennod hon, ymdrinnir â'r meini prawf mwyaf cyffredin ar gyfer gor-alw ond nid yw'n ymarferol cynnig rhestr gyflawn o'r hyn sy'n arfer da a'r hyn nad yw. Er enghraifft, efallai fod ambell faen prawf nad oes sôn amdano yma sydd hefyd yn annheg ac na ddylid ei gynnwys yn nhrefniadau derbyn ysgol. Mae'n bosibl i faen prawf fod yn deg dan rai amgylchiadau ac yn annheg dan amgylchiadau eraill. Awdurdodau derbyn, gan weithredu'n unol â darpariaethau a chanllawiau'r Cod hwn, sydd i benderfynu pa feini prawf a ddefnyddir ganddynt dan ba amgylchiadau. **Rhaidd** i awdurdodau derbyn **beidio** â rhoi amodau o unrhyw fath ar y broses o ystyried unrhyw gais ac eithrio'r rhai sy'n berthnasol i'r meini prawf gor-alw a gyhoeddwyd yn eu trefniadau derbyn.

2.28 Mae enghreifftiau o feini prawf posibl ar gyfer gor-alw ar gael yn Atodiad B.

Gwahardd meini prawf annymunol ar gyfer gor-alw

2.29 Wrth bennu meini prawf ar gyfer gor-alw **rhaidd** i awdurdodau derbyn **beidio** â:

- Mabwysiadu meini prawf sy'n dethol disgyblion ar sail gallu neu ddawn (ac eithrio yng nghyswllt y chweched dosbarth mewn ysgolion)¹⁵ ac eithrio mewn

¹² Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Dyddiad Cynnig Cyffredin) (Cymru) 2013.

¹³ Gweler Atodiad G am wybodaeth ar y dyddiadau cynnig cynradd ac uwchradd yn dod i rym.

¹⁴ Gweler paragraff 2.9.

¹⁵ Ac eithrio yng nghyswllt y chweched dosbarth a bandio, yn sgil [Deddf 1998](#), daeth dethol plant yn ôl gallu fel modd o dyrannu lleoedd yn anghyfreithlon mewn unrhyw ysgol. Mae adran 39 o [Ddeddf 2006](#) yn ategu'r safbwynt hwnnw.

ysgolion sydd â threfniadau dethol rhannol a oedd eisoes ar waith ddechrau blwyddyn ysgol 1997/98 a bod ganddynt yr hawl i barhau i ddethol ar sail gallu. Dim ond un ysgol yng Nghymru sydd â threfniadau dethol rhannol. Mae'r gwaharddiad cyffredinol ar feini prawf seiliedig ar allu, yng nghyswllt ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg.

- Rhoi mwy o flaenoriaeth i blant y mae eu rhieni'n fwy abl neu'n fwy parod i gefnogi ethos yr ysgol neu i gefnogi'r ysgol yn ariannol neu mewn rhyw fodd arall.
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i geisiadau yn ôl trefn y dewis.
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i blant ar sail cefndir neu statws y rhieni, gan gynnwys statws priodasol neu gyfeiriadedd rhywiol.
- Ystyried adroddiadau am ymddygiad, agwedd neu gyrhaeddiad blaenorol.
- Gwahaniaethu yn erbyn plant y mae ganddynt AAA neu anabledau neu roi'r plant hynny dan anfantais.
- Dyrannu lleoedd mewn ysgol ar y sail bod brawd neu chwaer neu berthynas arall yn gyn-ddisgybl.
- Ystyried ymddygiad aelodau eraill teulu plentyn, boed hynny'n dda neu'n ddrwg, gan gynnwys cofnod presenoldeb da neu wael.
- Rhoi blaenoriaeth i blant y mae neu y bu eu rhieni'n staff yn yr ysgol neu'n llywodraethwyr, neu i blant y mae eu rhieni'n gysylltiedig mewn modd arall â'r ysgol.
- Rhoi blaenoriaeth i blant sydd â diddordebau, gwybodaeth arbenigol neu hobiau penodol (neu i blant y mae gan eu rhieni ddiddordebau, gwybodaeth neu hobiau'r o'r fath).
- Rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y drefn y cyrhaeddodd y ceisiadau.
- Eithrio'n benodol ymgeiswyr o grŵp cymdeithasol neu grefyddol penodol.
- Dweud mai **dim ond** ymgeiswyr o grŵp cymdeithasol neu grefyddol penodol yr ystyrir eu derbyn.
- Rhoi blaenoriaeth i blant ar sail ffydd grefyddol ac eithrio bod yr ysgol wedi'i dynodi¹⁶ yn ysgol grefyddol ei chymeriad (Deddf Cydraddoldeb 2010).
- Dyrannu lleoedd ar sail oedran cronolegol.
- Pan wneir cais am le mewn dosbarth derbyn, rhoi blaenoriaeth i blant sydd wedi mynychu dosbarth meithrin yr ysgol neu ganolfan blant ar yr un lleoliad (gweler paragraff 2.59).
- Ei gwneud yn amod ar gyfer derbyn i'r ysgol bod rhieni'n llofnodi cytundeb cartref-ysgol¹⁷. (Rhaid i ysgolion beidio â gofyn i rieni lofnodi cytundebau cyn cynnig lle iddynt yn yr ysgol.)
- Dyrannu ar hap, e.e. drwy loteri.

Canllawiau ynglŷn â phennu meini prawf teg ar gyfer gor-alw

2.30 Mae plant sy'n derbyn gofal (plant dan ofal cyhoeddus)¹⁸ (gweler paragraff 3.22) ymhlith y plant mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Fel y dywedir yn [Rheoliadau Lleoli Plant \(Cymru\) 2007](#) ac yn Arweiniad [Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell](#) a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2007, mae'n hollbwysig dod o hyd i le iddynt mewn ysgol cyn gynted ag y bo modd, a hwnnw'n lle sydd er lles gorau'r plentyn.

¹⁶ [Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol \(Cymru\) 2007](#).

¹⁷ Adran 111 o [Ddeddf 1998](#).

¹⁸ Golyga hyn blentyn sy'n derbyn gofal gan ALI yng Nghymru neu yn Lloegr yn unol ag adran 22 o [Ddeddf Plant 1989](#).

2.31 At ddibenion pennu a gweinyddu meini prawf gor-alw, plentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn sy'n derbyn gofal gan ALI yng Nghymru neu yn Lloegr yn unol â [Deddf Plant 1989](#)¹⁹ ac y mae'r ALI wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal pan fydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol. Yn amodol ar yr eithriadau ym mharagraffau 2.32 i 2.34, **rhaid** i bob awdurdod derbyn roi'r flaenoriaeth uchaf yn eu meini prawf gor-alw i blant sy'n derbyn gofal, fel sy'n ofynnol gan [Reoliadau Addysg \(Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal\) \(Cymru\) 2009](#) a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal fel sy'n ofynnol gan y Cod hwn.

2.32 Gall awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sydd wedi'u dynodi â chymeriad crefyddol (ysgolion ffydd) roi blaenoriaeth gyntaf i'r holl blant sy'n derbyn gofal a'r holl blant oedd yn arfer derbyn gofal, boed hwy o'r ffydd honno ai peidio, ond **rhaid** rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal sy'n rhan o'u ffydd uwchlaw unrhyw blant eraill o'u ffydd. Os byddant yn rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal sy'n rhan o'r ffydd honno, yna mae'n **rhaid** iddynt roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal nad ydynt yn rhan o'r ffydd honno nag i blant eraill nad ydynt yn rhan o'r ffydd honno.

2.33 **Rhaid** i awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sydd â darpariaeth ar gyfer dewis ar sail gallu roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal a ddewiswyd ar sail eu gallu nag i blant eraill a ddewiswyd ar sail eu gallu. **Rhaid** rhoi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal na roddwyd lle iddynt ar sail eu gallu nag i blant eraill na roddwyd lle iddynt ar sail eu gallu.

2.34 **Rhaid** i awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sy'n dewis drwy fandio roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal ym mhob band nag i blant eraill yn y band hwnnw sy'n gymwys am le mewn ysgol.

2.35 Nid yw gweddill y meini prawf a restrir isod yn feini prawf a ffeirir, ond, yn hytrach, rhain yw'r rhai a ddefnyddir amlaf. Rhoddir arweiniad ynglŷn â than ba amgylchiadau y byddai'n dderbyniol eu defnyddio a than ba amgylchiadau na fyddai hynny'n dderbyniol. Yr awdurdodau derbyn sydd i benderfynu trefn y meini prawf hyn, ac a yw rhai neu bob un ohonynt yn briodol yn eu hamgylchiadau lleol, ond lle bydd y Cod hwn yn dweud **na ddylid** defnyddio maen prawf dan amgylchiadau penodol, rhaid i awdurdodau derbyn fod yn barod i gyfiawnhau eu penderfyniad i ddefnyddio'r maen prawf hwnnw os cyflwynir gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru.

Brodyr a chwirydd disgyblion sy'n dal i fynychu'r ysgol

2.36 Gall rhoi blaenoriaeth i blant y mae ganddynt frodyr a chwirydd a fydd yn mynychu'r ysgol pan fyddant yn cychwyn fod o gymorth i rieni plant bach. **Dylai** awdurdodau derbyn ystyried anghenion plant iau'n benodol mewn ysgolion cynradd, lle gallai cludo plant i wahanol ysgolion beri problemau i'r rhieni. **Dylai** awdurdodau derbyn hefyd ystyried yn ofalus sut yr ymdrinnir â gefeilliaid neu dripledï neu berthnasau eraill, gan gynnwys plant a fabwysiedir, sy'n byw'n barhaol ar yr aelwyd, os defnyddir brodyr a chwirydd yn faen prawf.

2.37 Os defnyddir brodyr a chwirydd yn faen prawf, **dylai** awdurdodau derbyn ddiffinio'n glir yr hyn a olygant wrth y term a chofio bod grwpiau ethnig a chymdeithasol gwahanol o bosibl yn dehongli termau megis 'brawd' a 'chwaer' mewn gwahanol ffyrdd. **Dylai** awdurdodau derbyn ei gwneud yn glir beth fydd sefyllfa plant eraill sy'n byw ar yr un

¹⁹ Adran 22 o Ddeddf Plant 1989.

aelwyd a diffinio'r termau a ddefnyddir megis llysblant, ac, ar ôl diffinio'r termau hyn, **rhaid** defnyddio'r un diffiniad yn gyson.

Plant genedigaethau lluosog (e.e. gefeilliaid neu dripledi)

2.38 Gall anawsterau penodol godi os gall ysgolion dderbyn un plentyn ond na allant dderbyn ei frawd neu'i chwaer, ac mae'n bosibl na fyddai rhieni yn hoff o'r syniad o fynd â'u plant i ddwy ysgol neu fwy. **Dylai** awdurdodau derbyn ystyried sut y byddant yn delio â phlant genedigaethau lluosog wrth flaenoriaethu ceisiadau. Os bydd angen, **dylai** meini prawf gor-alw priodol gael eu cynnwys yn y trefniadau derbyn a gyhoeddir.

Angen meddygol

2.39 Gall awdurdodau derbyn roi mwy o flaenoriaeth i blant neu i deuluoedd sydd ag angen meddygol (er enghraifft lle bydd gan un rhiant neu'r ddau ohonynt neu'r plentyn, anabledd a allai olygu ei bod yn anos iddynt deithio ymhellach i'r ysgol).

2.40 Os defnyddir y maen prawf hwn, **rhaid** i awdurdodau derbyn esbonio'n glir pa dystiolaeth y bydd ei hangen yn gefn i'r cais - er enghraifft, llythyr gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig megis meddyg neu weithiwr cymdeithasol - a sut y caiff hyn ei asesu'n wrthrychol. Dylid ei gwneud yn glir y dylai'r dystiolaeth a ddarperir yn gefn i'r cais nodi'r rhesymau penodol pam mai'r ysgol dan sylw yw'r ysgol fwyaf priodol a'r anawsterau a berid pe bai'n rhaid i'r plentyn fynd i ysgol arall. **Rhaid** i awdurdodau derbyn **beidio** â rhoi mwy o flaenoriaeth i blant dan y maen prawf hwn os nad yw'r dogfennau gofynnol wedi'u darparu.

2.41 Os defnyddir y maen prawf hwn, **rhaid** iddo **beidio** â chyfeirio at ddoniau arbennig mewn rhai pynciau megis chwaraeon neu gerddoriaeth. Er enghraifft, **rhaid** i ysgolion **beidio** â cheisio derbyn plant, dan y maen prawf hwn, ar y sail e.e. bod 'angen' iddynt fynychu'r ysgol oherwydd bod ganddynt allu neu ddiddordeb mewn chwaraeon a bod gan yr ysgol gyfleusterau chwaraeon arbennig o dda.

Meini prawf seiliedig-ar-ffydd ar gyfer gor-alw

2.42 Gall ysgolion sydd wedi'u dynodi'n rhai crefyddol eu cymeriad roi blaenoriaeth yn eu trefniadau derbyn i aelodau ffydd neu enwad penodol, ar yr amod nad yw hyn yn gwrthdaro â deddfwriaeth arall, megis deddfwriaeth gydraddoldeb neu ddarpariaethau gorfodol y Cod hwn. Fel sy'n wir am bob ysgol arall a gynhelir, **rhaid** i ysgolion ffydd **beidio** â chadw lleoedd ar agor os nad oes ganddynt ddigon o ymgeiswyr o'u ffydd eu hunain a bod teuluoedd eraill wedi ymgeisio am le yn yr ysgol.

2.43 Fel sy'n wir am yr holl feini prawf pan fydd gor-alw, **rhaid** i'r meini prawf seiliedig-ar-ffydd fod yn wrthrychol ac yn dryloyw. **Rhaid** i rieni a theuluoedd allu deall yn rhwydd sut mae bodloni'r meini prawf.

2.44 Os rhoddir blaenoriaeth i aelodau ffydd benodol, **rhaid** i'r trefniadau derbyn a gyhoeddir ei gwneud yn glir sut y dangosir ymlyniad neu ymrwymiad crefyddol - er enghraifft ai drwy ddatganiad syml o ymlyniad, neu drwy eirida a lofnodir gan offeiriad y teulu, neu ei weinidog, neu gynrychiolydd/wyr eraill o'r eglwys (**dylai** unrhyw eirida fod yn ysgrifenedig). Os cyfeirir at ba mor aml y bydd rhywun yn addoli, **dylai'r** diffiniad fod yn benodol **a dylai** gyfeirio, er enghraifft at 'addoli'n wythnosol' yn hytrach nag at 'addoli'n rheolaidd'. Mae angen ei gwneud yn glir hefyd a oes yn rhaid i unrhyw ofyniad gael ei

fodloni gan rieni (neu un rhiant os dim ond un rhiant sy'n driw i'r ffydd benodol) neu gan y plentyn neu'r ddau.

Arweiniad a roddir gan awdurdodau eglwysig neu grefyddol

2.45 Gall awdurdodau eglwysig neu grefyddol ddarparu arweiniad ar gyfer awdurdodau derbyn ysgolion eu ffydd sy'n nodi pa broses a meini prawf y ceir eu defnyddio er mwyn penderfynu a yw rhywun yn aelod o'r ffydd ai peidio. **Dylai** arweiniad o'r fath ddiffinio'n glir y termau a ddefnyddir a sut y penderfynir ynglŷn ag aelodaeth, a **rhaid** iddo fod yn gyson â darpariaethau a chanllawiau'r Cod hwn. Os cynhyrchir arweiniad o'r fath, **dylai** awdurdodau derbyn ysgolion y ffydd ei ddilyn.

2.46 **Dylai** awdurdodau derbyn ysgolion ffydd ystyried sut y mae eu trefniadau derbyn arbennig yn effeithio ar y gymuned leol. Gall ysgolion ffydd gyfrannu at gydlynad y gymuned drwy gael trefniadau derbyn sy'n cynnwys crefyddau a chredoau eraill a phob elfen o'r boblogaeth yn eu hardal leol.

2.47 **Rhaid** i ysgolion ffydd, fan leiaf, roi'r flaenoriaeth gyntaf yn eu meini prawf gor-alw i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal sy'n rhan o'u ffydd (gweler paragraff 2.32).

Y pellter rhwng y cartref a'r ysgol

2.48 Mae'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn faen prawf clir a gwrthrychol pan fydd gor-alw ac mae'n ddefnyddiol er mwyn torri'r ddadl. Os bydd awdurdod derbyn yn penderfynu defnyddio'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn un o'i feini prawf ar gyfer gor-alw **dylai** esbonio'n glir sut y mesurir y llwybr byrraf sydd ar gael o'r cartref i'r ysgol, gan gynnwys y pwynt yn yr ysgol a'r pwynt yng nghartref y plentyn a ddefnyddir i fesur y pellter (er enghraifft, prif gât yr ysgol, drws ffrynt y cartref, sut yr ymdrinnir â fflatiau) a dylid gofalu i ddefnyddio system ddibynadwy a rhesymol y mae'n hawdd i rieni ei deall. **Ni ddylid** mesur pellter mewn 'llinell syth' nac 'fel yr hed y frân'.

2.49 Gellir ystyried cynnwys y meini prawf gor-alw canlynol: 'y pellaf oddi wrth yr ysgol briodol nesaf'. Gall hyn hefyd fod yn ddefnyddiol wrth ddewis rhwng ymgeiswyr lle y gallai patrwm y ddarpariaeth ysgolion olygu bod rhai plant yn gorfod teithio'n rhy bell i gael lle mewn ysgol.

2.50 Os bydd plentyn yn byw gyda rhieni sy'n rhannu'r cyfrifoldeb am ei fagu, y naill a'r llall yn gyfrifol am ran o'r wythnos, mae angen i'r meini prawf ar gyfer gor-alw ei gwneud yn glir sut yr eir ati'n deg ac yn ystyrlon i benderfynu pa un o'r ddau yw'r cyfeiriad 'cartref'.

Ysgolion ar safleoedd rhanedig

2.51 Os oes ysgolion ar safleoedd rhanedig, **dylai'r** awdurdod derbyn yn y rhan fwyaf o achosion ddefnyddio'r trefniadau derbyn fel pe bai'r ysgol yn un uned. **Dylent** egluro i rieni bod ceisiadau derbyn yn cael eu gwneud i'r ysgol yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag i safle penodol. Bydd y safle a fynychir gan blant yn fater i drefnwyr mewnol yr ysgol. Ni cheir apelio yn erbyn y safle a roddir.

Dalgylchoedd

2.52 Cadarnhaodd Dyfarniad Rotherham 1997²⁰ nad oes dim byd anghyfreithlon yn yr egwyddor bod awdurdodau derbyn yn defnyddio dalgylchoedd fel rhan o'u meini prawf ar gyfer gor-alw a drwy hynny roi'r flaenoriaeth i blant lleol y mae eu rhieni wedi dweud y byddai'n well ganddynt i'w plentyn fynd i'r ysgol honno. Fodd bynnag, **ni ddylai** awdurdodau derbyn warantu lleoedd i rieni mewn dalgylch lleol, rhag ofn i sefyllfa godi ryw flwyddyn lle bydd mwy o geisiadau o'r tu mewn i'r dalgylch nag sydd o leoedd.

2.53 **Rhaid** i ALLau **beidio** ag awgrymu y dylai rhieni ddweud mai ysgol eu dalgylch lle y maent yn byw sydd orau ganddynt, na bod lle wedi'i neilltuo iddynt yn yr ysgol honno, cyn iddynt fynegi eu dewis. Er y **dylid** esbonio canlyniadau posibl peidio â gwneud hynny, **rhaid** i ALLau ei gwneud yn glir bod gan rieni'r hawl i enwi unrhyw ysgol fel yr un sydd orau ganddynt.

2.54 O ran plant pobl yn Lluoedd Arfog y DU, **rhaid** i awdurdodau derbyn drin teulu sy'n symud i'r ardal fel petaent yn bodloni meini prawf preswyllo ar gyfer dalgylch yr ysgol berthnasol ar ôl iddynt ddangos prawf o'u lleoliad, hyd yn oed os nad oes cyfeiriad ganddynt yn yr ardal ar y pryd.

2.55 Os defnyddir dalgylchoedd, dylid eu cynllunio gan sicrhau eu bod yn rhesymol ac wedi'u diffinio'n glir. Nid yw cyfeirio at ffiniau hanesyddol/traddodiadol neu ffiniau ALI bob amser yn briodol a gallant fod yn agored i wahanol ddehongliadau. **Rhaid** i awdurdodau derbyn drefnu i fapiau o'r ardaloedd penodol fod ar gael, er enghraifft ar eu gwefannau neu mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, neu alluogi rhieni fel arall i ddod o hyd i'w cartref yn rhwydd mewn perthynas â dalgylchoedd ysgolion. **Rhaid peidio** â phennu na newid dalgylchoedd ar ôl i bobl wneud cais. Nid oes dim i atal rhieni rhag dewis ysgol benodol hyd yn oed os ydynt yn byw y tu allan i'w dalgylch.

Canllawiau ychwanegol yn ymwneud ag ysgolion cynradd

2.56 Os oes gan ysgol gynradd fwy nag un flwyddyn derbyn (er enghraifft, os bydd ysgol fabanod ar wahân yn bwydo i adran iau ysgol gynradd) **rhaid** pennu trefniadau ar wahân ar gyfer pob blwyddyn derbyn.

Derbyn plant o dan yr oedran arferol ar gyfer cychwyn yn yr ysgol (meithrin)

2.57 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru dan ddyletswydd i sicrhau darpariaeth ddigonol o leoedd meithrin ar gyfer eu hardal i blant yn y tymor sy'n dilyn eu trydydd pen-blwydd. Wrth bennu a chyhoeddi'r trefniadau derbyn ar gyfer dosbarth derbyn, **rhaid** i'r awdurdod derbyn wneud y canlynol yn glir:

- Nad yw'r trefniadau'n berthnasol i'r sawl a dderbynnir i addysg feithrin, gan gynnwys darpariaeth feithrin a ddarperir mewn canolfan blant ar yr un safle.
- Y bydd angen i rieni plant a dderbynnir i addysg feithrin ddal i wneud cais am le yn yr ysgol os ydynt am i'w plant drosglwyddo i'r dosbarth derbyn.
- Nid yw mynychu'r feithrinfa neu'r ganolfan blant ar yr un lleoliad yn gwarantu y caiff plentyn ei dderbyn i'r ysgol.

²⁰. R v Rotherham Metropolitan Council ex parte Clark and others (1997) EWCA Civ 2768.

Ysgolion cynradd sydd â dosbarth meithrin ynghlwm wrthynt

2.58 Os bydd ysgolion yn derbyn disgyblion meithrin, **rhaid** nodi a chyhoeddi'r trefniadau derbyn hynny ar wahân. Mae'r darpariaethau yn y Cod hwn ond yn berthnasol i dderbyniadau meithrin i'r graddau a nodir ym mharagraffau 1.8 i 1.10 ac yn y paragraff hwn a pharagraffau 2.59 a 2.60. **Rhaid** i'r trefniadau derbyn a gyhoeddir egluro wrth rieni nad yw presenoldeb eu plentyn yn y dosbarth meithrin yn golygu ei fod yn bendant yn mynd i gael ei dderbyn i'r ysgol ar gyfer addysg gynradd, a bod yn **rhaid** gwneud cais ar wahân i drosglwyddo o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd (fel y mae'n **rhaid** gwneud i drosglwyddo o ysgolion babanod i ysgolion iau).

2.59 Gall darpariaeth feithrin fod mewn lleoliad a gynhelir neu leoliad nas cynhelir. Rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r broses ffurfiol i wneud cais am le²¹ a dylai'r arfer o gofrestru enw plentyn mewn ysgol benodol gael ei atal. Nid oes rôl i bennaethiaid yn y broses o ddyrannu lleoedd gan mai cyfrifoldeb yr awdurdod derbyn yw hynny. Mewn ardaloedd lle mae mwy o geisiadau am leoedd meithrin nag sydd o leoedd ar gael, **dylai** awdurdodau derbyn ddefnyddio meini prawf gor-alw sy'n deg i ddyrannu'r lleoedd.

2.60 **Rhaid** i awdurdodau derbyn **beidio** â chynnwys mynychu'r feithrinfa neu'r ganolfan blant ar yr un safle ar gyfer addysg feithrin yn eu meini prawf gor-alw ar gyfer derbyn i ysgolion cynradd. Gall trefniadau o'r fath roi mantais i'r rhieni hynny sy'n barod i deithio cryn bellter i'w plentyn fynd i ysgol feithrin er mwyn iddynt gael blaenoriaeth dros rieni mwy lleol o ran trefniadau derbyn i'r ysgol gynradd. Gall meini prawf o'r fath hefyd olygu bod teuluoedd sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar dan anfantais, a hefyd y rheini sydd wedi dewis darparwyr eraill neu sy'n dewis manteisio ar ddarpariaeth am ddim gan ddarparwr lleol arall. Efallai y bydd rhai rhieni'n teimlo bod yn rhaid iddynt gofrestru eu plentyn yn yr ysgol cyn iddynt ystyried fod y plentyn yn barod, er mwyn sicrhau lle yn yr ysgol gynradd.

Gohirio mynediad i ysgolion cynradd

2.61 Yn ôl y gyfraith, nid yw'n ofynnol i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed. Lle bydd yr awdurdod derbyn ar gyfer ysgol gynradd yn cynnig lleoedd mewn dosbarthiadau derbyn i rieni cyn i'w plant gyrraedd yr oedran ysgol gorfodol, **rhaid** iddynt roi'r dewis i'r rhieni ohirio derbyn eu plentyn tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Effaith hynny yw bod y lle'n cael ei gadw i'r plentyn hwnnw ac nad yw'r lle ar gael i'w gynnig i blentyn arall. Fodd bynnag, ni fyddai'r rhieni'n cael gohirio'r derbyn y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed, na'r tu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer. **Rhaid** gwneud hyn yn glir yn nhrefniadau derbyn yr ysgol.

2.62 Lle bydd ysgol fabanod ac ysgol iau ar wahân ond eu bod wedi'u paru â'i gilydd, rhaid i'r trefniadau a gyhoeddir ei gwneud yn glir y bydd angen i rieni plant yr ysgol fabanod wneud cais am leoedd yn yr ysgol iau ac nad yw mynychu'r ysgol fabanod yn gwarantu lle yn yr ysgol iau.

Canllawiau ychwanegol ar gyfer ysgolion uwchradd

2.63 Mae enwi'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd a defnyddio hynny'n faen prawf ar gyfer gor-alw yn fodd o sicrhau gwell dilyniant i ddisgyblion ond mae angen

²¹. Fe wnaeth [Deddf Addysg 2002](#), Atodlen 4, paragraff 12 ddiwygio adran 98 o Ddeddf 1998.

bod yn ofalus wrth wneud hynny. **Dylai** awdurdodau derbyn sicrhau nad yw trefniadau o'r fath yn rhoi plant sy'n symud i'r ardal yn hwyr dan anfantais annheg, ac ystyried yn ofalus yr effaith a gaiff trefniadau o'r fath ar allu ysgol i wasanaethu'r ardal leol gyfagos.

Canllawiau ychwanegol ar gyfer ysgolion canol

2.64 Mae angen i awdurdodau derbyn ag ysgolion canol²² bennu trefniadau wedi'u teilwra ar gyfer cyfnodau meithrin, cynradd ac uwchradd y blynyddoedd derbyn perthnasol, ond ar ôl i ddisgyblion ddechrau yn y cyfnod cynradd, ni fyddai angen i'r disgyblion hynny wneud cais am y cyfnod uwchradd.

Trefniadau derbyn i'r chweched dosbarth

2.65 Os bydd awdurdod derbyn yn dymuno mabwysiadu trefniadau penodol ar gyfer derbyn disgyblion i chweched dosbarth yr ysgol, gan gynnwys pennu nifer derbyn ar wahân, **rhaid** iddo ymgynghori ynglŷn â'r trefniadau hynny, eu pennu a'u cyhoeddi ar yr un pryd ac yn yr un modd ag ar gyfer pob trefniant derbyn arall.

2.66 Gellir gwneud ceisiadau ar gyfer derbyn mewn chweched dosbarth naill ai gan y rhiant neu'r unigolyn ifanc neu'r naill a'r llall. **Rhaid** i'r ceisiadau hyn gael eu trin yn yr un ffordd ag unrhyw gais arall ar gyfer derbyn i ysgol.

2.67 Caniateir i awdurdodau derbyn bennu trefniadau ar gyfer derbyn i'r chweched dosbarth sydd wedi'u seilio'n llwyr ar ddethol ar sail gallu a lle bydd trefniadau o'r fath ar waith, nid yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r hyn sydd orau ganddynt yn berthnasol²³. Mae hynny'n golygu y gellir gwrthod lle i berson ifanc hyd yn oed os nad yw grŵp y flwyddyn yn llawn. Fodd bynnag, cyn gosod meini prawf ar gyfer trosglwyddo neu dderbyn i'r chweched dosbarth sy'n seiliedig ar allu, **dylai** awdurdodau derbyn ystyried anghenion y person ifanc a darpariaeth yr addysg ôl orfodol addas sydd ar gael yn yr ardal y byddai person ifanc yn gallu cael mynediad atynt pe na baent yn diwallu'r meini prawf.

2.68 Gall awdurdodau derbyn sefydlu set o feini prawf ar gyfer gor-alw yng nghyswllt derbyn disgyblion i'r chweched dosbarth a'r rheini'n wahanol i'r meini prawf ar gyfer gor-alw a ddefnyddir ar gyfer grwpiau blynyddoedd iau. Gallai'r meini prawf hyn gynnwys dethol ar sail gallu. Os caiff trefniadau dethol eu mabwysiadu, **dylid** nodi'r gofynion sylfaenol yn fanwl (er enghraifft, lle mae'n ofynnol bod ymgeiswyr wedi cyflawni 5 TGAU ar Radd C neu uwch i gael mynediad, **rhaid** nodi hyn yn glir). **Dylai** trefniadau o'r fath hefyd gynnwys gwybodaeth ar y ffordd y caiff ymgeiswyr eu blaenoriaethu os bydd mwy o geisiadau nag o leoedd yn y chweched dosbarth. Dim ond pan fyddai mwy o geisiadau nag sydd o leoedd y byddai angen eu defnyddio.

2.69 Er mwyn i'r meini prawf ar gyfer gor-alw am leoedd yn y chweched dosbarth weithio'n effeithiol, mae angen i awdurdodau derbyn gyhoeddi nifer derbyn ar wahân ar gyfer y chweched dosbarth gan ddefnyddio fformiwla '[Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru](#)'. Oni wneir hyn, y nifer derbyn perthnasol fyddai'r nifer derbyn sy'n berthnasol i Flwyddyn 7 ac mae hwnnw'n debygol o fod yn rhy uchel.

2.70 **Rhaid** i unrhyw awdurdod derbyn sy'n pennu trefniadau derbyn ar gyfer y chweched dosbarth sy'n seiliedig yn llwyr ar ddethol ddefnyddio'r trefniadau hynny yn yr un modd ar gyfer pobl ifanc sydd eisoes yn mynychu'r ysgol honno ond sy'n ceisio lle yn y

²² Fel y'u diffinnir gan adran 5 o Ddeddf Addysg 1996.

²³ Adran 86(3a) o [Ddeddf 1998](#).

chweched dosbarth ag ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais am gael eu derbyn i'r ysgol am y tro cyntaf. Ym mhob achos arall, ni fydd angen i'r bobl ifanc sydd eisoes yn mynychu'r ysgol wneud cais am gael eu derbyn i'r chweched dosbarth ac ni ellir gwrthod lle iddynt.

2.71 **Rhaid** i ysgolion **beidio** â chyfweld pobl ifanc na'u teuluoedd er mwyn derbyn i'r chweched dosbarth er bod modd cynnal cyfarfodydd i ddarparu cyngor ar ddewisiadau a gofynion derbyn ar gyfer cyrsiau penodol. **Rhaid** i dderbyn **beidio** â bod yn ddibynnol ar bresenoldeb, cofnod ymddygiad na chanfyddiadau o agwedd neu gymhellant.

3. Rhoi'r trefniadau derbyn ar waith

3.1 **Rhaid** i bob awdurdod derbyn ystyried ceisiadau am leoedd mewn ysgolion a phenderfynu yn eu cylch yn unol â'r trefniadau a gyhoeddwyd ganddynt.

3.2 Os bydd gormod o geisiadau'n cyrraedd ar gyfer ysgol, yna, **rhaid** i'r awdurdod derbyn ystyried pob cais ar sail y meini prawf a gyhoeddwyd ganddo ar gyfer ymdrin â gor-alw (ac eithrio yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal, a phlant oedd yn arfer derbyn gofal neu blant â datganiad AAA).

3.3 Lle bynnag y bydd yn bosibl **dylai'r** holl geisiadau am dderbyniadau gael eu dychwelyd at yr awdurdod derbyn.

3.4 Mewn blwyddyn derbyn arferol, **rhaid peidio** â gwrthod derbyn plentyn i ysgol ar y sail y byddai hynny'n anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, ac eithrio pan fydd nifer y ceisiadau am leoedd yn fwy na'r nifer derbyn²⁴.

3.5 Mae'r nifer derbyn yn adlewyrchu gallu'r ysgol i ddarparu ar gyfer disgyblion ac **ni ddylid** mynd yn uwch na hyn. Fodd bynnag, gall fod yn rhesymol i'r awdurdod derbyn ystyried arfer disgresiwn, mewn amgylchiadau eithriadol, i dderbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn. Gallai achosion o'r fath gynnwys:

- Lle mae nifer fawr o leoedd gwag ar draws y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol, fel y gellir darparu ar gyfer y disgybl heb amharu ar dderbyniadau'r dyfodol os bydd y cynnydd yn y lleoedd a lenwir yn parhau.
- Os bydd prinder dros dro o fath penodol o ddarpariaeth mewn ardal, er enghraifft addysg Gymraeg, tra bod darpariaeth ychwanegol yn cael ei sefydlu.

3.6 Ni fyddai'n briodol mynd yn uwch na nifer derbyn ysgol fel y disgrifiwyd uchod os oes lleoedd ar gael mewn ysgol addas arall sydd o fewn pellter teithio rhesymol i gartref plentyn gan ystyried polisi teithio i'r ysgol yr awdurdod lleol.

3.7 Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng deddfwriaeth maint dosbarthiadau a niferoedd derbyn. Ni ddylid drysu rhwng deddfwriaeth maint dosbarthiadau a nifer derbyn ysgol. Os yw'r nifer derbyn yn is, neu'n uwch na 30, **rhaid** derbyn disgyblion nes cyrraedd y nifer derbyn yn y flwyddyn derbyn arferol, am fod hyn yn adlewyrchu capasiti'r ysgol i dderbyn plant yn y grŵp oedran perthnasol. Mae'r terfyn o 30 ar gyfer maint dosbarthiadau babanod yn berthnasol i drefniadaeth y dosbarthiadau yn hytrach nag i'r nifer o blant sydd i'w derbyn.

3.8 Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer blynyddoedd ar wahân i'r flwyddyn derbyn arferol, (h.y. dosbarth derbyn neu flwyddyn 7) **dylai** awdurdodau derbyn dderbyn hyd at nifer derbyn yr ysgol ac anaml y bydd modd profi anfantais yn sail ar gyfer gwrthod disgybl ychwanegol os bydd y nifer yn dal o dan y rhif derbyn. Gan fod y nifer derbyn yn adlewyrchu gallu'r ysgol i ddarparu ar gyfer disgyblion, **ni ddylid** mynd dros ben y rhif hwn i unrhyw raddau arwyddocaol mewn perthynas ag unrhyw grŵp blwyddyn. Os bydd y nifer derbyn yn codi'n uwch yn gyson gallai hynny arwain at orlenwi.

²⁴. Adran 86(5) o [Ddeddf 1998](#) fel y'i disodlwyd gan adran 47 o [Ddeddf Addysg 2002](#).

Ffurflenni cais

3.9 **Rhaid** i bob cais am le mewn ysgol gael ei wneud ar ffurflen gais sydd wedi'i chwblhau ar bapur neu'n electronig. **Rhaid** i'r wybodaeth a geisir fod yr un peth ar y ddwy ffurflen a **rhaid** eu trin yn yr un ffordd pan gânt eu cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a wnaed ar ran plentyn sy'n derbyn gofal gan riant corfforaethol lle mae'r ALL yn rhiant corfforaethol ac yn awdurdod derbyn. **Rhaid** i awdurdodau derbyn sicrhau bod ffurflen gais yn cael ei darparu ar gyfer pob un o'r ysgolion y maent yn gyfrifol amdanynt. Caiff y ffurflenni hyn fod yn berthnasol i un ysgol yn unig neu i grŵp o ysgolion. **Rhaid** i bob ffurflen gynnwys y dyddiad cau ar gyfer ei dychwelyd (h.y. yr un dyddiad dychwelyd) ynghyd ag enw a chyfeiriad y sawl y dylid ei hanfon atynt. **Dylent** ofyn am yr wybodaeth a ganlyn (ceir ffurflen enghreifftiol yn Atodiad F):

- Enw llawn y plentyn neu'r person ifanc, ei ddyddiad geni a'i fan preswyllo (oherwydd fe all hyn fod yn wahanol i gyfeiriad y rhiant).
- Rhyw'r plentyn neu'r person ifanc (lle bydd awdurdodau'n cynnig ysgolion uwchradd un rhyw).
- A yw'r plentyn yn 'blentyn sy'n derbyn gofal' (plentyn mewn gofal) neu'n blentyn oedd yn arfer derbyn gofal.
- A oes gan y plentyn ddatganiad AAA a hwnnw'n cynnwys ysgol sydd wedi'i henwi.
- Yr ysgol/ion (yn nhrefn eu blaenoriaeth) a fyddai orau gan y person ifanc neu'r rhiant.
- Enw/au a dyddiadau geni'r plant hŷn sydd eisoes yn mynychu'r ysgol/ion a fyddai orau ganddynt (os yw cysylltiad brodyr a chwiorydd yn faen prawf ar gyfer gor-alw).
- Ysgol y person ifanc neu'r plentyn ar hyn o bryd (os yw ysgolion bwydo'n faen prawf).
- Llofnod y person ifanc neu'r rhiant, yr enw wedi'i brintio, cyfeiriad gohebu a rhif ffôn.
- Rhesymau meddygol cryf dros dderbyn y plentyn gyda thystiolaeth yn gefn i hynny (os yw rhesymau meddygol yn faen prawf ar gyfer gor-alw).

3.10 Er mwyn osgoi posibilrwydd gwahaniaethu, **ni ddylid** ceisio gwybodaeth ychwanegol am faterion nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer gor-alw.

3.11 Hefyd, **dylai** awdurdodau derbyn ystyried darparu'r wybodaeth a ganlyn ar ffurflenni cais:

- Y rhoddir blaenoriaeth i blentyn/person ifanc y mae ei rieni wedi dweud mai'r ysgol honno a fyddai orau ganddynt ac y bydd peidio â dweud pa ysgol sydd orau ganddynt/peidio â chyflwyno ffurflen yn golygu ei bod yn llai tebygol y caiff plentyn/person ifanc fynychu ei ddewis ysgol neu ddewis ysgol y rhiant.
- Nad yw mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd neu ysgol fabanod yn gwarantu lle yn nosbarth derbyn yr ysgol a'i bod yn **rhaid** cyflwyno ffurflen gais.
- Y caiff pawb ei ddewis cyntaf ac eithrio lle bydd mwy o geisiadau nag sydd o leoedd. Yn yr achosion hynny, dyrennir y lleoedd ar sail y meini prawf ar gyfer gor-alw a gyhoeddwyd.
- Meini prawf yr awdurdod ar gyfer gor-alw.

- Rhif i gysylltu ag ef os bydd rhieni/person ifanc am gael gwybod pa ysgol/ion sydd o fewn eu dalgylch perthnasol (cyfrwng Saesneg/Cymraeg neu enwadol) os oes polisi dalgylch ar waith.
- Nad oes hawl i apelio yng nghyswllt derbyn i feithrinfa.

3.12 **Dylai** awdurdodau derbyn hefyd ystyried cydnabod eu bod wedi derbyn ffurflenni cais er mwyn rhoi tawelwch meddwl i bobl ifanc, rhieni a gofalwyr.

Cyfweld

3.13 Mae [Deddf 1998](#)²⁵ yn gwahardd cyfweld â rhieni, person ifanc a/neu blentyn fel ffordd o benderfynu a ddylid cynnig lle mewn ysgol i'r plentyn/person ifanc ai peidio. Mae hyn yn cynnwys cyfweliadau wyneb-yn-wyneb a chyfweliadau dros y ffôn neu drwy ddull arall, er enghraifft cwestiynau ac atebion ysgrifenedig a thraethodau. Nid yw hyn yn effeithio ar nosweithiau agored a digwyddiadau eraill i ddarpar rieni, pobl ifanc a phlant, ond **rhaid peidio** â defnyddio gwybodaeth a geir yn ystod y digwyddiadau hyn yn y broses o wneud penderfyniadau. **Rhaid peidio** â gwneud mynychu noson agored neu gyfarfod arall yn yr ysgol yn amod ar gyfer dyrannu lle.

3.14 Nid yw'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i gyfweliadau a gynhelir gan ysgolion preswyl gyda'r unig ddiben o benderfynu a yw plentyn yn addas ar gyfer lle preswyl (gweler Atodiad C).

Ymdrin â cheisiadau hwyr a cheisiadau y tu allan i'r rownd derbyn arferol

3.15 **Dylai** fod gan awdurdodau derbyn bolisi y cytunwyd arno ar gyfer ymdrin â cheisiadau hwyr. **Dylent** dderbyn ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio os rhoddir rheswm da, er enghraifft, os oes rhiant sengl wedi bod yn sâl ers tro, neu os yw'r teulu newydd symud i'r ardal, neu'n dychwelyd o dramor - ar yr amod bod y ceisiadau'n cyrraedd cyn y cynigir lleoedd. **Rhaid** derbyn plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd â datganiadau AAA sy'n enwi ysgol benodol, ni waeth pa bryd y derbyniwyd eu cais.

3.16 Wrth ymdrin â cheisiadau y tu allan i'r rownd derbyn arferol, boed hynny yn ystod y flwyddyn neu ar gyfer blwyddyn ysgol nad yw'n adeg derbyn arferol i'r ysgol, **rhaid** i'r awdurdodau derbyn gydymffurfio â dewis y rhieni neu ddewis y person ifanc mewn achos chweched dosbarth ac eithrio bod un o'r rhesymau statudol (gweler paragraff 2.1) dros wrthod derbyn y plentyn yn berthnasol.

3.17 **Rhaid** rhoi ffurflen gais i bawb sy'n mynegi diddordeb mewn cael lle a hynny'r tro cyntaf iddynt gysylltu. Ar ôl i geisiadau o'r fath gyrraedd, **rhaid** eu hystyried yn ddi-oed a **dylid** gwneud penderfyniad ffurfiol naill ai i gynnig lle neu ei wrthod gan hysbysu'r ymgeisydd o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr pa un bynnag fydd gyntaf. **Rhaid peidio** â gwrthod cyfle i ymgeiswyr ymgeisio, na dweud wrthynt mai'r unig beth y gellir ei wneud yw eu rhoi ar restr aros yn hytrach na chyflwyno cais ffurfiol.

3.18 **Rhaid** trin ceisiadau am le mewn ysgol am gyfnod byr yn unig yn yr un modd ag yr ymdrinnir ag unrhyw gais arall am le.

²⁵ Adran 88A o Ddeddf 1998 a fewnosodwyd gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008.

3.19 Mae'r un rhesymau statudol dros wrthod derbyn plentyn yn berthnasol y tu hwnt i'r rownd derbyn arferol yn yr un modd â cheisiadau a wnaed yn ystod y rownd derbyn arferol. **Rhaid** i awdurdodau derbyn **beidio** â gwrthod derbyn plentyn am iddynt ddilyn cwricwlwm gwahanol yn eu hysgol flaenorol. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, **dylied** rhoi gwybod i'r rhieni am y cwricwlwm a gynigir yn yr ysgol a ddewiswyd.

3.20 Pan na fydd gan blant le mewn ysgol mae'n hollbwysig dod o hyd i le iddynt yn gyflym ond, mae [Deddf Addysg 1996](#)²⁶ yn caniatáu gohirio derbyn plentyn tan ddechrau'r tymor ysgol. Pan geir achosion o symud ysgol heb fod angen symud tŷ, neu pan na fydd angen symud ar unwaith, mae'n bosibl y byddai'r awdurdod derbyn yn dymuno trefnu i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol ar ddechrau'r tymor er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysg y plentyn ei hun ac ar addysg plant eraill. **Rhaid** i'r awdurdodau derbyn sicrhau nad yw hyn yn anfanteisio plant sy'n agored i niwed fel y disgrifir yn y paragraffau isod.

3.21 Lle gwneir cais y tu allan i'r rownd derbyn arferol gryn dipyn cyn y dyddiad dechrau y gwneir cais amdano (e.e. lle disgwylir i ddisgybl symud i ardal ymhen rhai misoedd) **dylai'r** awdurdod derbyn ystyried yn ofalus, dan amgylchiadau'r achos, am faint y byddai'n rhesymol cadw'r lle ar agor i'r disgybl. Gan amlaf, ni fyddai'n briodol cadw'r lle ar agor am fwy na thymor ysgol.

Plant sy'n derbyn gofal

3.22 Mae [Rheoliadau Addysg \(Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal\) \(Cymru\) 2009](#) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau derbyn yng Nghymru i dderbyn plant sy'n derbyn gofal gan ALI yng Nghymru pan wneir cais am le y tu allan i'r rownd derbyn arferol gan y rhiant corfforaethol ar eu rhan. Fodd bynnag, cyn gwneud cais **rhaid** i'r rhiant corfforaethol (h.y. yr ALI yng Nghymru sy'n gyfrifol am ofalu am y plentyn) ymgynghori â'r awdurdod derbyn perthnasol (ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal sydd wedi cael ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor, corff llywodraethu'r ysgol gymunedol berthnasol neu'r ysgol wirfoddol a reolir berthnasol) a gwneud pob ymdrech i sicrhau priodoldeb yr ysgol a enwir yng ngoleuni cefndir y plentyn gan gynnwys ei anghenion AAA a/neu ffydd. Nid oes angen i'r ymgynghoriad fod yn feichus a dylai galwad ffôn rhwng y partïon fod yn ddigon.

3.23 Pan fydd awdurdod derbyn (neu gorff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir yn achos plentyn sy'n derbyn gofal sydd wedi cael ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor) yn credu y byddai cydymffurfio â'r ddyletswydd i dderbyn plentyn sy'n derbyn gofal yn anfantais ddifrifol i ddarparu addysg yn effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, gall, o fewn 7 niwrnod calendr o dderbyn y cais, gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru. Rhaid gwneud unrhyw gyfeiriad o'r fath yn ysgrifenedig, a **rhaid** iddo nodi sail yr awdurdod derbyn (neu'r corff llywodraethu) dros gredu y byddai anfantais ddifrifol yn codi. Gall Gweinidogion Cymru naill ai gynnal y ddyletswydd i dderbyn, neu os yw'r ALI sy'n gofalu am y plentyn yn cytuno, benderfynu bod yn **rhaid** i ysgol arall yng Nghymru dderbyn y plentyn. Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru yn rhwymo.

3.24 Ni chaiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod yn rhaid i ysgol arall dderbyn y plentyn os yw'r plentyn eisoes wedi cael ei eithrio o'r ysgol honno neu os byddai derbyn yn achosi anfantais ddifrifol yng nghyswllt darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau yn effeithlon. Pan na chaiff cais i dderbyn ar ran plentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn oedd yn arfer derbyn gofal ei gyfeirio at Weinidogion Cymru, **rhaid** rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad i dderbyn cyn pen 10 diwrnod calendr a **rhaid** caniatáu lle i'r plentyn o'r diwrnod ysgol nesaf sydd ar gael.

²⁶ Adran 433 o Ddeddf Addysg 1996.

Plant Sipsiwn a Theithwyr

3.25 Mae'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr yn troi llawer o amgylch y teulu a bydd y rhieni fel arfer yn dymuno i holl blant y teulu fynychu'r un ysgol. Mae'r disgwyliad i blant hŷn ofalu am eu brodyr a'u chwirydd iau yn elfen bwysig o'u diwylliant, ac mae hyn yn arbennig o berthnasol yn yr ysgol. Os na ddeuir o hyd i lleoedd ar gyfer holl blant y teulu yn yr un ysgol gallai hynny olygu y cânt eu cadw gartref am gyfnodau hir tra byddant yn aros am lleoedd. Gall hyn achosi anawsterau penodol i awdurdodau derbyn pan fydd teuluoedd yn cyrraedd y tu allan i'r cylch derbyn arferol.

3.26 **Rhaid** sicrhau bod trefniadau ar waith i gofrestru plant Sipsiwn a Theithwyr yn gyflym mewn ysgol boed y rheini'n byw yn yr ardal yn barhaol ynteu dros dro. Mae arweiniad ar yr arferion gorau o ran sicrhau bod addysg ar gael i'r grŵp hwn o ddysgwyr ar gael yng Nghylchlythyr 003/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru '[Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr](#)'.

Rhestri aros

3.27 **Rhaid** i awdurdodau derbyn gadw rhestri aros ar gyfer ysgolion lle ceir gor-alw a rhaid rhoi'r manylion am y rheini yn y trefniadau derbyn a gyhoeddir. Ar ôl dyrannu lleoedd yn ystod y rownd dderbyn arferol, **rhaid** i blant aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi ymgeisio ar ei chyfer. Wedi hynny, **dylid** disgwyl i'r rhieni wneud cais newydd am le.

3.28 Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra mae'r rhestr aros yn weithredol, **rhaid** dyrannu'r rheini i blant sydd ar y rhestr aros, ar sail y meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer gor-alw. **Rhaid** i restri aros **beidio** â rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr. Er enghraifft, os bydd plentyn yn symud i ardal y tu allan i'r rownd derbyn arferol a'i fod yn flaenoriaeth uwch dan y meini prawf ar gyfer gor-alw, **rhaid** ei roi'n uwch ar y rhestr aros na'r rheini sydd eisoes ar y rhestr ond sydd â blaenoriaeth is. **Dylai** awdurdodau derbyn roi gwybod i rieni ymhle y mae eu plentyn wedi'i roi ar restr aros, ond **rhaid** iddynt **beidio** ag awgrymu pa mor debygol yw hi y caiff gynnig lle.

3.29 Os bydd lleoedd mewn ysgolion yn dod yn wag cyn cynnal apelau derbyn, **rhaid** i'r awdurdodau derbyn lenwi'r lleoedd gwag hyn ar sail unrhyw restr aros. Nid yw rhoi enw plentyn ar restr aros yn effeithio ar hawl rhiant i apelio yn erbyn cais aflwyddiannus.

Derbyn y tu allan i'r grŵp oedran arferol

3.30 Er y caiff y rhan fwyaf o blant eu derbyn i ysgol o fewn eu grŵp oedran cronolegol eu hunain, o bryd i'w gilydd, bydd rhieni'n ceisio lle y tu allan i'w grŵp oedran arferol ar gyfer plant dawnus a thalentog, neu'r rheini sydd wedi cael problemau neu wedi colli rhan o'r flwyddyn, a hynny'n aml oherwydd afiechyd. Er na fyddai gan amlaf yn briodol i blentyn gael ei roi mewn grŵp blwyddyn nad yw'n cyd-fynd â'u hoedran cronolegol, **dylai** awdurdodau derbyn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus a phenderfynu ar sail amgylchiadau pob achos a drwy ymgynghori â'r rhieni ac â'r ysgol, ac yn benodol, beth fyddai fwyaf buddiol i'r plentyn. **Dylid** ystyried adroddiad y Seicolegydd Addysg hefyd pan fydd ar gael, a rhesymau amlwg dros wneud penderfyniad o'r fath.

3.31 Os penderfynir bod sail dros ystyried cais 'y tu allan i'r flwyddyn', mae gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant mewn ysgol hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl apelio os cynigiwyd lle ond nad yw yn y grŵp blwyddyn dymunol.

Penderfynu

3.32 Os mai'r ysgol ei hun yw'r awdurdod derbyn, **rhaid** i'r pwyllgor derbyn a sefydlwyd gan y corff llywodraethu, wneud penderfyniadau o'r fath²⁷. **Rhaid** i benderfyniadau ynglŷn â derbyn **beidio** â chael eu gwneud gan un unigolyn mewn ysgol. Os mai'r ALI yw'r awdurdod derbyn, **rhaid** i swyddog/swyddogion priodol yr ALI benderfynu (y swyddog derbyn fel rheol). Er y gall ALLau ddirprwyo eu holl swyddogaethau derbyn i gorff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol a reolir yn wirfoddol, **rhaid** iddynt **beidio** â dirprwyo rhan o swyddogaethau awdurdod derbyn, megis y pŵer i benderfynu ynglŷn â cheisiadau am le, i gorff llywodraethu (neu i'r Pennaeth).

3.33 **Rhaid** i bennaethiaid neu swyddogion eraill ysgolion **beidio** â chyfleu wrth rieni unrhyw ddisgwyliad y bydd eu cais yn llwyddiannus, na dweud wrthynt fod eu plentyn wedi cael lle yn yr ysgol, cyn i'r lle gael ei gynnig iddynt yn ffurfiol. Fodd bynnag, lle ceir tystiolaeth bod rhieni wedi cael gwybod gan bennaeth neu swyddog addysg arall y caiff eu plentyn le mewn ysgol, gallent yn rhesymol ddisgwyl bod gan y sawl a wnaeth y cynnig yr awdurdod i wneud hynny. Os gwnaed cynnig anffurfiol, **dylai'r** awdurdod derbyn gan amlaf lynu wrth y cynnig, er nad oedd mewn gwirionedd, o bosibl, wedi awdurdodi'r unigolyn hwnnw i'w wneud. Mae'n bwysig nodi **na ddylai'r** cynnig hwn amharu ar dderbyn plant eraill a fyddai fel arall wedi cael cynnig lle os na fyddai'r cynnig anffurfiol wedi'i wneud. Gallai gwneud cynnigion answyddogol arwain at dorri'r rheoliadau ar faint dosbarthiadau²⁸ (yn achos dosbarthiadau babanod), ac mae hyn yn fater y byddai'n rhaid i'r ysgol roi sylw iddo. Mae'n bwysig felly atal sefyllfaoedd o'r fath rhag codi.

Rhoi gwybod i rieni

3.34 **Rhaid** rhoi gwybod i bob rhiant drwy llythyr ynglŷn â chanlyniad pob cais am le. **Rhaid** i'r llythyr fod yn glir ac ni ddylid defnyddio jargon.

3.35 Os bydd y cais yn llwyddiannus, **dylid** cynnwys y dyddiad dechrau pan fydd yn bosibl. Gall awdurdodau derbyn gynnwys ffurflen i'w dychwelyd sy'n gofyn i'r rhieni a fyddant yn derbyn y lle sy'n cael ei gynnig ai peidio ac yn nodi dyddiad ar gyfer dychwelyd y ffurflen honno.

3.36 Os gwrthodir y cais, **rhaid** i'r llythyr roi'r rhesymau dros y penderfyniad ynghyd â nodi nifer y ceisiadau a ddaeth i law, nifer y lleoedd sydd ar gael, a'r meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer gor-alw. Os gwrthodir plentyn oherwydd y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod, **rhaid** gwneud hyn yn glir (gweler paragraff 3.46). **Rhaid** i'r llythyr hefyd gynnwys gwybodaeth am hawl y rhieni i apelio yn erbyn y penderfyniad, y broses ar gyfer gwneud hyn, a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb.

²⁷ Rheoliadau a wnaed o dan adrannau 21 a 138 o Ddeddf 1998; ac adrannau 19-21, 23-25, 34-36, 210 a 214 o Ddeddf Addysg 2002.

²⁸ Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013.

Apelau derbyn

3.37 Caniateir i rieni apelio yn erbyn penderfyniadau “ynghlŷn ag ym mha ysgol y darperir addysg ar gyfer y plentyn o ran gweithredu swyddogaethau'r awdurdod”²⁹. Yn achos derbyn i'r chweched dosbarth, mae'r rhiant a'r person ifanc yn gallu apelio ar wahân neu gyda'i gilydd. Pan fyddant yn gwneud cais ar wahân, **rhaid** i'r apelau gael eu gwrando gyda'i gilydd. Lle gwrthodir cais i dderbyn, **rhaid** i'r awdurdodau derbyn roi gwybod i'r rhieni am eu hawl i apelio yn y llythyr gwrthod a **rhaid** iddynt **beidio** â chynnig sylw am ba mor debygol yw hi y bydd yr apêl yn llwyddo. Mae gofyn iddynt hefyd sefydlu paneli annibynnol i rieni apelio iddynt yn erbyn penderfyniadau i wrthod lle yn eu dewis ysgol. **Rhaid** i awdurdodau derbyn sicrhau bod apelau a wneir yn ystod y broses derbyn a amserlennwyd yn cael gwrandawriad o fewn 30 diwrnod ysgol i'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer apelau. **Rhaid** cynnal gwrandawiadau apêl ar gyfer apelau a wneir y tu allan i'r broses derbyn a amserlennwyd o fewn 30 diwrnod ysgol i'r adeg pan gyflwynir yr apêl ar ffurf ysgrifenedig. Yn ystod gwyliau'r haf, **rhaid** i'r awdurdodau derbyn drefnu eu gwrandawiadau apelau o fewn 30 diwrnod gwaith i'r adeg pan gyflwynir yr apêl ar ffurf ysgrifenedig (gweler paragraff 4.9 o'r Cod Apelau Derbyniadau i Ysgolion).

3.38 Roedd [Rheoliadau Addysg \(Trefniadau Apelau Derbyn\) \(Cymru\) 2005](#) fel y'u diwygiwyd yn nodi cyfansoddiad y paneli apelau derbyn. Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn gosod gofynion gorfodol ac yn darparu canllawiau ynghlŷn â sut y dylid sefydlu paneli a sut y dylent gynnal eu gwrandawiadau.

3.39 Os bydd rhieni plentyn yn ennill apêl, **rhaid** i'r awdurdodau derbyn roi lle i'r plentyn hwnnw. Os bydd yr awdurdod derbyn yn dymuno gwrthwynebu penderfyniad y panel apêl, caiff wneud cais am adolygiad barnwrol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru awdurdodaeth o gwbl dros benderfyniadau paneli apêl.

Tynnu cynnig lle yn ôl

3.40 Ar ôl i awdurdod derbyn gynnig lle mewn ysgol, dim ond dan amgylchiadau prin iawn y caiff dynnu'r cynnig hwnnw yn ei ôl yn gyfreithlon. Gallai'r amgylchiadau hynny gynnwys sefyllfa lle mae'r awdurdod derbyn wedi cynnig y lle ar sail cais twyllodrus neu gais sy'n fwriadol gamarweiniol gan riant neu berson ifanc (er enghraifft, honiad ffug ynghlŷn â phreswyllo yn y dalgylch) a hynny mewn gwirionedd wedi golygu bod lle wedi'i wrthod i blentyn â hawl gryfach, neu sefyllfa lle y cynigiwyd lle gan yr ALI, yn hytrach na gan yr awdurdod derbyn, drwy gamgymeriad.

3.41 **Rhaid peidio** â thynnu lle yn ôl ar ôl i blentyn neu berson ifanc ddechrau yn yr ysgol, ac eithrio pan fydd y lle hwnnw wedi'i sicrhau drwy dwyll. Wrth benderfynu a ddylid tynnu'r lle yn ôl, **rhaid** ystyried am faint yr oedd y plentyn wedi bod yn yr ysgol. Lle tynnir lle yn ôl ar sail gwybodaeth gamarweiniol, **rhaid** ystyried y cais o'r newydd, a chynnig hawl i apelio os gwrthodir lle.

²⁹ Adran 94 o Ddeddf 1998.

Dyletswydd corff llywodraethu i roi penderfyniad awdurdod derbyn ar waith

3.42 **Rhaid** i gorff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir, y mae ALI yn awdurdod derbyn ar ei chyfer, roi ar waith unrhyw benderfyniad a wneir gan yr awdurdod derbyn ynglŷn â derbyn disgyblion³⁰ heb oedi'n ormodol.

Pŵer cyfarwyddo'r ALI

3.43 Caiff ALI gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol a gynhelir nad yw'n awdurdod derbyn ar ei chyfer i dderbyn unrhyw blentyn yn eu hardal y gwrthodwyd lle iddo ym mhob ysgol sy'n bellter rhesymol oddi wrth ei gartref ac sy'n cynnig addysg briodol, a/neu ei fod wedi'i wahardd yn barhaol ohonynt, ac eithrio lle bo'r plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol honno³¹.

3.44 Cyn rhoi cyfarwyddyd, **rhaid** i'r ALI ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol y maent yn bwriadu ei henwi'n benodol yn y cyfarwyddyd. Os bydd yr ALI, ar ôl yr ymgynghori, yn penderfynu cyhoeddi'r cyfarwyddyd, **rhaid** iddo yn gyntaf gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ynglŷn â'i benderfyniad. Caiff y corff llywodraethu, o fewn cyfnod o 15 diwrnod i gyflwyno'r hysbysiad, gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru, gan roi gwybod i'r ALI ei fod wedi gwneud hynny. Os na chaiff y mater ei gyfeirio a bod y cyfarwyddyd yn cael ei gyhoeddi, **rhaid** i'r corff llywodraethu dderbyn y plentyn i'r ysgol.

Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i drefniadau derbyn ysgolion

Y cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod

3.45 Mae'r cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau'n golygu, pan fydd un athro/athrawes ysgol³² yn bresennol, ac ar wahân i eithriadau prin (gweler isod), na chaiff dosbarthiadau babanod (derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion³³.

3.46 Caiff awdurdod derbyn wrthod derbyn plentyn i ysgol petai gwneud hynny'n anafanteisiol o ran maint y dosbarth, hynny yw, y byddai'n anafanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon oherwydd y byddai angen cymryd camau perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfyngu ar faint dosbarthiadau babanod. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r flwyddyn derbyn ni ellir dweud y bydd anfantais o'r fath yn codi oni bai y rhagorid ar nifer derbyn yr ysgol.

3.47 Er nad oes deddfwriaeth yn cyfyngu dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 i 30 neu lai, dyma darged Llywodraeth Cymru ar gyfer maint dosbarthiadau.

3.48 Oni ellir rhoi addysg i fathau arbennig o blant ("plant a eithri") yn yr ysgol mewn dosbarth babanod arall lle na chroesir y terfyn heb gymryd camau perthnasol a fyddai'n anafanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, ni cheir cyfrif y plant hynny at ddibenion penderfynu a yw'r terfyn o 30 disgybl wedi'i groesi ai peidio.

³⁰ Adran 88(1A) o [Ddeddf 1998](#) (fel a fewnosodwyd gan adran 43 o [Ddeddf 2006](#)).

³¹ Adran 96 o [Ddeddf 1998](#) fel y'i diwygiwyd gan baragraff 10 o Atodlen 4 i [Ddeddf Addysg 2002](#).

³² Rhywun sydd wedi cymhwyso dan [Reoliadau Addysg \(Cymwysterau Athrawon Ysgol\) \(Cymru\) 2004](#).

³³ Adran 1 o [Ddeddf 1998](#) a Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013.

Plant a eithrir yw:

1. Plant y mae eu datganiadau AAA yn pennu ei bod yn rhaid iddynt gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a gafodd eu derbyn i'r ysgol y tu allan i rownd derbyn arferol.
2. Plant sy'n cael gofal gan awdurdodau lleol (plant sy'n derbyn gofal), neu sydd wedi peidio â chael gofal (plant a oedd yn arfer derbyn gofal) o ganlyniad i gael eu mabwysiadu neu eu lleoli gyda theulu neu i gael gwarcheidwad arbennig, ac sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i rownd derbyn arferol.
3. Plant y gwrthodir eu derbyn i ysgol yn y lle cyntaf, ond y cynigir lle iddynt wedyn y tu allan i rownd derbyn arferol, yn sgil cyfarwyddyd panel apelau derbyn, neu oherwydd bod y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol yn sylweddoli bod gwall wedi'i wneud o ran rhoi trefniadau derbyn yr ysgol ar waith.
4. Plant a dderbynnir y tu allan i'r rownd derbyn arferol:
 - y mae'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol wedi cadarnhau na allant gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref am eu bod wedi symud i'r ardal y tu allan i'r rownd derbyn arferol, neu
 - y maent eisiau addysg grefyddol, neu addysg Gymraeg a'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas o fewn pellter rhesymol.
5. Plant a gafodd eu derbyn i'r ysgol y tu allan i'r rownd derbyn arferol ar ôl i'r ysgol drefnu ei dosbarthiadau, ac ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol, gan olygu y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd cam perthnasol pe na bai'r plant hynny yn ddisgyblion a eithrir.
6. Plant y mae eu rhiant yn y lluoedd arfog ac a dderbynnir i'r ysgol y tu allan i'r rownd derbyn arferol.
7. Plant y mae eu gefaill neu frawd neu chwaer arall o enedigaeth luosog yn cael eu derbyn fel disgyblion nas eithrir, fel y disgybl(ion) olaf i gael lle cyn cyrraedd y nifer derbyn.
8. Plant sy'n ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.
9. Plant ag AAA sydd fel rheol yn cael eu haddysgu mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n cael rhai o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n ddosbarth addysg arbennig.

3.49 Bydd disgyblion a eithrir yn aros felly, ar ôl eu derbyn, am weddill eu hamser mewn dosbarth babanod neu nes bod niferoedd y dosbarth yn disgyn fel bod modd eu trefnu i gydymffurfio â'r terfyn ar gyfer maint dosbarthiadau babanod. Er enghraifft, os bydd plentyn nas eithrir yn gadael y dosbarth, neu os bydd dosbarth babanod ychwanegol yn cael ei greu neu athro ychwanegol yn cael ei benodi, bydd y plentyn hwnnw'n peidio â bod yn ddisgybl a eithrir. Rhaid i ddosbarthiadau gael eu trefnu er mwyn cydymffurfio â'r terfyn bob cyfle posibl.

3.50 Bydd yr eithriadau o ran plant a oedd yn arfer derbyn gofal, plant â rhiant yn y lluoedd arfog, a gefeilliaid neu frodyr a chwiorydd eraill o enedigaethau lluosog yn berthnasol i dderbyniadau o flwyddyn ysgol 2014/15. Bydd pob eithriad arall yn berthnasol o flwyddyn ysgol 2013/14.

Plant â datganiadau AAA

3.51 Yn gyffredinol, ymdrinnir â derbyn plant â datganiadau AAA gan [Ddeddf Addysg 1996](#)³⁴. Ceir arweiniad ynglŷn â derbyn plant â datganiadau yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Yn sgil hynny, nid yw darpariaethau derbyn [Deddf 1998](#) yn gyffredinol berthnasol i blant â datganiadau AAA. Mae adran 324 o [Ddeddf Addysg 1996](#) yn mynnu bod angen i ysgol a gynhelir a enwir mewn datganiad AAA dderbyn y plentyn. Ni all ysgolion wrthod derbyn y plentyn hyd yn oed petaent yn croesi eu nifer derbyn drwy wneud hynny.

3.52 Os yw ALI wedi rhoi datganiad i blentyn ag AAA, mae'n gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth addysgol arbennig ar gael ar gyfer y plentyn hwnnw. Mae'n bosibl y bydd yr ALI yn dewis ysgol benodol y mae'n ei hystyried yn addas ar gyfer anghenion y plentyn, ac yn enwi'r ysgol yn y datganiad. Rhaid i awdurdodau derbyn beidio ag anghofio'u dyletswyddau o ran Deddfwriaeth Cydraddoldebau a chanllawiau ar wella³⁵ hygyrchedd ysgolion³⁶. Os bydd rhiant plentyn â datganiad AAA yn dymuno apelio yn erbyn yr ysgol a enwir yn y datganiad, neu yn erbyn y ffaith nad oes ysgol wedi'i henwi, dylid apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, nid i'r panel apelau derbyn.

Plant ag AAA nad oes ganddynt ddatganiadau

3.53 **Rhaid** trin plant y mae ganddynt AAA ond nad oes ganddynt ddatganiad yr un mor deg ag yr ymdrinnir ag ymgeiswyr eraill. **Rhaid** i awdurdodau derbyn **beidio** â gwrthod derbyn plentyn oherwydd eu bod yn ystyried na allant ddarparu ar gyfer ei AAA. **Rhaid** i awdurdodau derbyn ystyried ceisiadau gan blant y mae ganddynt AAA ond nad oes ganddynt ddatganiad, ar sail y meini prawf derbyn a gyhoeddwyd gan yr ysgol. **Rhaid** iddynt **beidio** â gwrthod derbyn plant oherwydd nad oes ganddynt ddatganiad AAA, neu oherwydd eu bod yn cael eu hasesu ar gyfer datganiad ar y pryd. Os bydd awdurdodau derbyn yn rhoi rhywfaint o flaenoriaeth i blant y mae ganddynt anghenion arbennig, meddygol neu gymdeithasol ac ati, ond nad oes ganddynt ddatganiad, **dylai'r** trefniadau derbyn a gyhoeddir ganddynt esbonio pa dystiolaeth y mae ei hangen ynglŷn â'r angen hwnnw er mwyn i'r plant fod yn gymwys dan y maen prawf.

3.54 Os yw plentyn yn mynd drwy broses asesu ar gyfer datganiad, efallai y bydd y rhieni am wneud cais am le mewn ysgol o dan y gweithdrefnau derbyn arferol rhag ofn y bydd yr ALI yn penderfynu nad yw anghenion y plentyn yn cyfiawnhau datganiad AAA. Os bydd yr ALI yn penderfynu y **dylai'r** plentyn gael datganiad AAA, bydd penderfyniadau ynghylch lleoli mewn ysgol briodol yn cael eu gwneud yn rhan o'r broses ddatganiadau.

Plant ag anableddau

3.55 Mae hi wedi bod yn ddyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau derbyn i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl er 2002 (yn wreiddiol o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac o Hydref 2010 o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). **Rhaid** i awdurdodau derbyn **beidio** â gwahaniaethu yn erbyn plentyn anabl drwy:

- a) eu trefniadau ar gyfer penderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn i'r ysgol
- b) y telerau sy'n sail i'w cynnig i dderbyn plentyn anabl i'r ysgol

³⁵ Adrannau 312 i 349 o [Ddeddf Addysg 1996](#), ac Atodlenni 26 a 27 i'r Ddeddf honno.

³⁶ Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr Rhif: 15/2004.

- c) gwrthod derbyn neu fynd ati'n fwriadol i osgoi derbyn cais am le, neu
- d) methu â darparu cymhorthion a gwasanaethau ychwanegol ar gyfer disgyblion anabl.

Mae'r ddyletswydd addasiadau rhesymol yn ddyledus i ddisgyblion anabl, fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddyletswydd newydd yn ddisgwyllgar ac yn berthnasol i ddisgyblion posibl, felly **rhaidd** i awdurdodau derbyn ac ysgolion feddwl ymlaen, a rhagweld rhwystrau i ddisgyblion anabl a dileu neu leihau'r rhwystrau hynny.

Plant sy'n ymddwyn yn heriol

3.56 **Ni ddylai** awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn ar sail eu hymddygiad mewn man arall. **Ni ddylai** ysgolion wrthod derbyn plentyn yr ystyrir y gallai darfu ar yr ysgol, neu ymddwyn mewn modd heriol, oherwydd dylid asesu'r plentyn yn gyntaf i weld a oes ganddo AAA. Yr unig adeg y mae'r gyfraith yn caniatáu i ysgol wyro oddi wrth yr egwyddor arferol, sef y dylid cydymffurfio â dymuniadau'r rhieni, yw yn y sefyllfa lle 'gwaharddwyd plentyn ddwywaith' a ddisgrifir ym mharagraff 3.57. Os gwelir bod plentyn yn tarfu'n ddifrifol ac yn ddi-baid ar ôl ei dderbyn, yna, caiff yr ysgol ystyried camau disgyblu, gan gynnwys gweithdrefnau gwahardd dros dro, ac, yn y pen draw, wahardd yn barhaol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall plant sy'n ymddwyn yn heriol fod yn anabl fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac felly, bod angen gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer yn yr ysgol, neu ddarparu cymorth AAA ar eu cyfer. **Rhaidd** i'r ysgol fod yn rhagweithiol o ran hyrwyddo cydraddoldeb anabled ar gyfer y disgyblion hyn, fel sy'n wir am bob disgybl anabl.

3.57 Efallai y bydd rhai ysgolion lle nad oes galw mawr am leoedd yn gweld bod gofyn iddynt dderbyn cyfran fwy na'r cyffredin o blant sydd â hanes ymddwyn yn heriol yn ddiweddar, a bod hynny efallai wedi golygu eu bod wedi'u gwahardd yn barhaol o ysgol arall. **Dylai** fforymau derbyn drafod sut y gall trefniadau derbyn lleol ganiatáu i bobysgol dderbyn cyfran fwy teg o blant o'r fath, gan gynnwys plant sydd wedi'u gwahardd o ysgolion eraill, ac i gytuno ar brotocolau ar gyfer derbyn plant anodd eu lleoli. **Dylid** ystyried yr arweiniad yn Nogfen Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru: Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol. **Rhaidd** i awdurdodau derbyn wrando ar gyngor eu fforwm derbyn.

Disgyblion sydd wedi'u gwahardd ddwywaith

3.58 Lle bydd plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy na hynny, bydd gan y rhieni hawl o hyd i ddweud pa ysgol a fyddai orau ganddynt, ond nid oes yn rhaid cydymffurfio â'r dewis hwnnw am o leiaf ddwy flynedd ar ôl dyddiad y gwaharddiad diweddaraf³⁷.

Nid yw hyn yn berthnasol i:

- Blant y mae ganddynt ddatganiad AAA.
- Plant a oedd yn iau na'r oedran ysgol gorfodol pan gawsant eu gwahardd.
- Plant a dderbyniwyd yn ôl ar ôl gwaharddiad parhaol.
- Plant a fyddai wedi cael eu derbyn yn ôl ar ôl gwaharddiad parhaol petasai'n ymarferol gwneud hynny.

³⁷. Adran 87 o [Ddeddf 1998](#).

- Plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal, pan fydd y cais i dderbyn yn cael ei wneud gan neu ar ran y rhiant corfforaethol.

3.59 Ystyrir gwaharddiad parhaol yn waharddiad sy'n dechrau ar y diwrnod ysgol cyntaf pan fydd y pennaeth wedi dweud wrth y plentyn am beidio â mynychu'r ysgol.

3.60 Caiff yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol wrthod derbyn y plentyn, neu os mai ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir sydd dan sylw, caiff y corff llywodraethu apelio yn erbyn penderfyniad yr ALI, sef yr awdurdod derbyn, i dderbyn y plentyn (gweler y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion i gael gwybodaeth am yr apelau hyn). Mae ALlau yn dal yn gyfrifol am ddarparu addysg amser llawn addas ar gyfer y plant hyn ac efallai y bydd angen iddynt ddefnyddio'u pwerau cyfarwyddo neu ddarparu lle mewn Uned Cyfeirio Disgyblion.

Plant anodd eu lleoli

3.61 **Rhaid** bod gan bob awdurdod derbyn brotocolau ar gyfer derbyn plant y maent yn eu hystyried yn anodd eu lleoli. Mae angen i bawb chwarae eu rhan i sicrhau bod y plant hyn, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu derbyn i ysgol addas cyn gynted ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys, o bosibl, derbyn plant i ysgolion sydd eisoes yn llawn.

3.62 Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng dod o hyd i le'n gyflym mewn ysgol lle nad yw'r galw am leoedd yn fawr, neu un sy'n wynebu amgylchiadau anodd, a dod o hyd i le mewn ysgol sy'n addas ar gyfer y plentyn. Felly, **dylai'r** protocol sicrhau nad oes gofyn i'r un ysgol, gan gynnwys y rheini lle ceir lleoedd gwag, dderbyn gormod neu nifer afresymol o blant sydd wedi'u gwahardd o ysgolion eraill.

3.63 Gallai'r protocolau hynny gynnwys pob plentyn sy'n cyrraedd y tu allan i'r rownd derbyn arferol a allai ei chael yn anodd cael gafael ar le. **Dylai** awdurdodau derbyn gyfeirio at y cyfarwyddyd a ddarperir ym mharagraff 3.25 i 3.26 ynghylch plant Sipsiwn a Theithwyr. **Dylid** trin plant ag AAA ond nad oes ganddynt ddatganiadau yn yr un modd ag yr ymdrinnir â phob ymgeisydd, ond **dylai'r** protocolau gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau bod plant o'r fath yn cael eu lleoli'n gyflym, os gwyddys ymlaen llaw bod angen cymorth AAA penodol.

3.64 Ar ôl cytuno ar y protocolau hyn, **dylai** fforymau derbyn fonitro pa mor dda y maent yn gweithio, pa mor gyflym y deuir o hyd i leoedd ar gyfer y plant, a chyfraniad pob ysgol yn yr ardal.

Plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a phlant Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)

3.65 Bydd teuluoedd pobl sydd yn Lluoedd y DU a Gweision eraill y Goron³⁸ yn cael eu symud o gwmpas y DU ac o dramor yn aml, a hynny'n aml heb fawr o rybudd. **Rhaid** neilltuo lleoedd mewn ysgolion i blant a'u teuluoedd cyn dechrau'r flwyddyn ysgol sydd ar y gorwel os ceir llythyr swyddogol gyda'r cais gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn nodi'r dyddiad dychwelyd. Gall plant i bobl yn Lluoedd Arfog y DU gael eu heithrio at ddibenion maint dosbarthiadau babanod pan gânt eu derbyn i ysgol y tu allan i'r rownd derbyn arferol.

³⁸

Un o Weision y Goron yw un o swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

3.66 **Rhaid** i awdurdodau derbyn:

- Sicrhau bod anghenion plant y teuluoedd hyn yn cael eu hystyried.
- Neilltuo lle iddynt mewn ysgol ymlaen llaw, petai'r ymgeisydd yn ateb y meini prawf ar ôl symud i'r gyrchfan.
- Gwahodd cynrychiolydd o'r Lluoedd neu gynrychiolwyr crynodiadau sylweddol eraill o Weision y Goron i ymuno â'r fforwm derbyn.
- Derbyn cyfeiriad post Uned ar gyfer ceisiadau gan aelodau'r lluoedd os nad oes ganddynt gyfeiriad post cartref newydd.

3.67 **Rhaid** i awdurdodau derbyn **beidio** â:

- Chadw lleoedd ar gyfer blociau o'r plant hyn, na
- Gwrthod lle i blentyn o'r fath am nad yw'r teulu'n byw yn ardal yr ALI ar y pryd.

Plant o dramor

3.68 **Rhaid** i awdurdodau derbyn drin ceisiadau ar gyfer plant sy'n dod o dramor yn unol â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd neu reolau'r Swyddfa Gartref ar gyfer gwladolion nad ydynt o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae gwefan y Swyddfa Gartref³⁹ yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf a dylid cyfeirio ati'n gyntaf cyn chwilio am wybodaeth yn unrhyw le arall.

Cynlluniau cyfnewid athrawon

3.69 Lle bydd plentyn yn mynd dramor gyda rhiant ar gynllun cyfnewid athrawon, **dylai'r** ysgol sicrhau bod lle i'r plentyn pan fydd yn dychwelyd. **Dylid** cadw enw'r plentyn ar y gofrestr a gellir trin y cyfnod pan na fydd yn mynychu'r ysgol fel "gweithgarwch addysgol cymeradwy".

3.70 Mae'n ddyletswydd ar yr ALI ddod o hyd i le i blentyn a fydd yn dod i breswyllo yn ei ardal yn sgil y ffaith fod y rhiant yn cymryd rhan mewn cynllun cyfnewid athrawon. **Dylai** ALIau gynllunio ymlaen llaw ar gyfer anghenion y plant hyn er mwyn sicrhau bod lle addas iddynt mewn ysgol ar gyfer y cyfnod cyfnewid, lle bynnag y bydd hyn yn ymarferol.

Trosglwyddiadau o'r sector annibynnol

3.71 Gellir caniatáu i blant ddod i mewn i'r DU ar eu pen eu hunain os gallant ddangos bod ganddynt le mewn ysgol annibynnol y telir ffioedd iddi. Lle rhoddwyd hawl i blentyn ddod i mewn ar y sail honno, ni fydd y Swyddfa Gartref fel rheol yn caniatáu estyniad i'r cyfnod aros, nac ychwaith yn diwygio amodau mynediad y plentyn, os bydd y plentyn hwnnw'n trosglwyddo i ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig. Mae'n bosibl y byddai ALIau a chyrrff llywodraethu'n dymuno cadw hyn mewn cof wrth ystyried cais am drosglwyddo ar ran plentyn o dramor sydd wedi bod yn mynychu ysgol talu-ffioedd cyn hynny. **Dylid** troi at wefan y Swyddfa Gartref bob amser i gael y cyngor diweddaraf.

³⁹

www.homeoffice.gov.uk

Ceisiadau a wneir yn y DU ar gyfer plant sy'n byw dramor

3.72 Mae'n bosibl y bydd awdurdodau derbyn yn cael cais gan rieni o dramor am le mewn ysgol ar gyfer plentyn nad yw'n preswyllo yn y DU eto. Ni fydd yr awdurdod derbyn o anghenraid yn gwybod pa bryd y disgwylir i'r plentyn fod yn preswyllo yn y DU, nac a yw cais y rhieni am ganiatâd i ddod i'r DU wedi bod yn llwyddiannus (neu a fydd yn llwyddiannus), nac ychwaith, os bu'n llwyddiannus, ar ba delerau y caniatwyd iddynt ddod i'r wlad. Mae'r rhain i gyd yn ystyriaethau y gallai awdurdod derbyn yn rhesymol eu hystyried wrth bwysu a mesur y cais.

Gwisg ysgol

3.73 Mae gwisg ysgol yn gwneud cyfraniad hollbwysig at osod naws yr ysgol a'i hethos. **Dylai** awdurdodau derbyn roi sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar hyn⁴⁰.

Teithio gan ddysgwyr

3.74 Mae [Mesur Teithio gan Ddysgwyr \(Cymru\) 2008](#) yn nodi gofynion penodol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar hyn.⁴¹

⁴⁰ Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisiau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion – Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr Rhif: 15/2011.

⁴¹ Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2009.

Atodiad A: Yr amserlen derbyn

Nodir yr amserlen a'r gweithdrefnau ar gyfer derbyn i ysgolion yn y Cod hwn ac yn y rheoliadau perthnasol. Mae'r amserlen derbyn yn berthnasol i bob ysgol a gynhelir.

Mae gan awdurdodau lleol ran allweddol o ran rhoi gwybodaeth i rieni ar drefniadau derbyn ac ysgolion yn eu hardal.

Amserlen enghreifftiol

Blwyddyn benderfynu (20**/20**)

| | |
|-----------------|---|
| 1 Medi | Y dyddiad cynharaf i ddechrau ymgynghori ar y trefniadau arfaethedig. Dylai hyd y cyfnod ymgynghori fod yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau. |
| 1 Mawrth | Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad ar y trefniadau derbyn arfaethedig. |
| 15 Ebrill | Y dyddiad cau i'r trefniadau derbyn gael eu pennu hyd yn oed os nad ydynt wedi newid ers y flwyddyn cynt ac nad oedd angen ymgynghori. |
| 1 Mehefin | Y dyddiad hwyraf y dylai cyrff llywodraethu sy'n awdurdodau derbyn anfon copi o'r trefniadau derbyn llawn a bennwyd ganddynt i'r ALI i'w galluogi i baratoi prospectws cyfansawdd. Dylai ALLau wirio'r wybodaeth hon lle bo modd gyda'r holl gyfranwyr cyn cyhoeddi. |
| Tymor yr Hydref | Cyhoeddi prospectws cyfansawdd a'i ddsbarthu i rieni. |

Blwyddyn gynnig (20**/20**)

| | |
|---|---|
| 1 Hydref a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos cyn y dyddiad cau | Y dyddiad cau i'r awdurdod derbyn gyhoeddi prospectws cyfansawdd. |
| Chwefror | Dyddiad cau i awdurdodau derbyn gyhoeddi eu hamserlenni Apelau ar eu gwefannau. |
| 1 Mawrth neu'r diwrnod gwaith nesaf | Diwrnod cynnig cenedlaethol ar gyfer lleoedd ysgolion uwchradd (o 2015/16). |
| 16 Ebrill neu'r diwrnod gwaith nesaf | Diwrnod cynnig cenedlaethol ar gyfer lleoedd ysgolion cynradd (o 2018/19). |

Atodiad B: Meini prawf ar gyfer gor-alw

B.1 **Enghreifftiau yn unig** yw'r canlynol. **Rhaid** gosod y trefniadau ar gyfer ysgolion unigol yng nghyd-destun amgylchiadau lleol a'r broses o roi'r meini prawf ar waith yn ymarferol.

Ysgolion cymunedol

B.2 Bydd plant â datganiad anghenion addysgol arbennig sy'n enwi ysgol benodol yn cael eu derbyn i'r ysgol honno. Pan fo nifer y ceisiadau ar ran disgyblion eraill yr un faint neu'n llai na nifer y lleoedd sydd ar ôl (gweler nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol berthnasol) caiff yr holl geisiadau eu cymeradwyo. Fodd bynnag, pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd yr awdurdod derbyn yn defnyddio'r meini prawf gor-alw canlynol ac yn dyrannu lleoedd yn unol â hwy.

1. Plant sy'n derbyn gofal (plant dan ofal cyhoeddus) a phlant oedd yn arfer derbyn gofal.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer (gweler y diffiniad) yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.
3. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
4. Plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.

B.3 Os bydd nifer y disgyblion yn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig, bydd yr awdurdod derbyn yn defnyddio'r dull canlynol o ddewis rhwng ymgeiswyr i ddyrannu lleoedd, e.e. y llwybr byrraf sydd ar gael rhwng y cartref a'r ysgol, wedi'i fesur o brif fynedfa'r ysgol i brif fynedfa cartref y disgybl gan ddefnyddio meddalwedd Bydd yr un dull o ddewis rhwng ymgeiswyr yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried unrhyw geisiadau sydd ar ôl os yw'r holl ddisgyblion yn y categorïau uchod wedi cael lle.

B.4 Dylai awdurdodau derbyn diffinio'n glir yr hyn y maent yn ei ystyried yn 'frawd neu'n chwaer' pan fo'r term yn cael ei ddefnyddio yn eu meini prawf gor-alw.

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr

B.5 Bydd plant â datganiad anghenion addysgol arbennig sy'n enwi ysgol benodol yn cael eu derbyn i'r ysgol honno. Pan fo nifer y ceisiadau ar ran disgyblion eraill yr un faint neu'n llai na nifer y lleoedd sydd ar ôl (gweler nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol berthnasol) caiff yr holl geisiadau eu cymeradwyo. Fodd bynnag, pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael bydd yr awdurdod derbyn yn defnyddio'r meini prawf gor-alw canlynol ac yn dyrannu lleoedd yn unol â hwy.

B.6 Gall awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sydd wedi'u dynodi â chymeriad crefyddol (ysgolion ffydd) roi blaenoriaeth gyntaf i'r holl blant sy'n derbyn gofal a'r holl blant oedd yn arfer derbyn gofal, boed hwy o'r ffydd honno ai peidio, ond **rhaid** rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal sy'n rhan o'u ffydd uwchlaw unrhyw blant eraill o'u ffydd. Os byddant yn rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal sy'n rhan o'r ffydd honno, yna mae'n **rhaid** iddynt roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal nad ydynt yn rhan o'r ffydd honno nag i blant eraill nad ydynt yn rhan o'r ffydd honno. Megis yn yr enghraifft ganlynol:

1. Plant sy'n derbyn gofal (plant dan ofal cyhoeddus) a phlant oedd yn arfer derbyn gofal sy'n rhan o'r ffydd.
2. Plant o'r ffydd sy'n byw yn ardal ddiffiniedig yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer (gweler y diffiniad) yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.
3. Plant o'r ffydd sy'n byw yn ardal ddiffiniedig yr ysgol.
4. Plant o'r ffydd sy'n byw y tu allan i'r ardal ddiffiniedig ac sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.
5. Plant o'r ffydd sy'n byw y tu allan i'r ardal ddiffiniedig.
6. Plant sy'n derbyn gofal (plant dan ofal cyhoeddus) a phlant oedd yn arfer derbyn gofal nad ydynt yn rhan o'r ffydd.
7. Plant nad ydynt o'r ffydd sy'n byw yn ardal ddiffiniedig yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer (gweler y diffiniad) yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.
8. Plant nad ydynt o'r ffydd sy'n byw yn ardal ddiffiniedig yr ysgol.
9. Plant nad ydynt o'r ffydd sy'n byw y tu allan i'r ardal ddiffiniedig ac sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.

B.7 Os bydd nifer y disgyblion yn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r nifer derbyn cyhoeddus, bydd yr awdurdod derbyn yn defnyddio'r dull canlynol o ddewis rhwng ymgeiswyr i ddyrannu lleoedd, e.e. y llwybr byrraf sydd ar gael rhwng y cartref a'r ysgol, wedi'i fesur o brif fynedfa'r ysgol i brif fynedfa cartref y disgybl gan ddefnyddio meddalwedd Bydd yr un dull o ddewis rhwng ymgeiswyr yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried unrhyw geisiadau sydd ar ôl os yw'r holl ddisgyblion yn y categorïau uchod wedi cael lle.

B.8 Mater i awdurdodau derbyn unigol, yn unol â chanllawiau esgobaethol, yw nodi'r ffyrdd y bydd rhieni/gwarcheidwaid yn dangos eu bod yn cydymffurfio â meini prawf gor-alw eu ffydd. Hefyd, pan fo ffiniau plwyfi'n pennu patrwm yr 'ardal benodedig' dylai eu manylion fod ar gael i rieni. **Dylai** awdurdodau derbyn nodi'n glir yr hyn y maent yn ei ystyried yn 'frawd neu'n chwaer' pan fo'r term yn cael ei ddefnyddio yn eu meini prawf gor-alw.

Atodiad C: Ysgolion preswyl

C.1 Dim ond un ysgol breswyl a gynhelir sydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r Atodiad hwn yn benodol berthnasol i'r ysgol honno ac yma, ceir fframwaith ar gyfer derbyn disgyblion i'r lleoedd preswyl hynny yn yr ysgol.

Gweithdrefnau derbyn

C.2 Gan eu bod yn ysgolion a gynhelir, **rhaid** i ysgolion preswyl fabwysiadu a chyhoeddi set o feini prawf ar gyfer derbyn, a hynny ar gyfer lleoedd dydd a lleoedd preswyl, gan gydymffurfio â deddfwriaeth addysg a deddfwriaeth gydraddoldeb ac â darpariaethau'r Cod hwn.

C.3 Caiff ysgolion preswyl fabwysiadu niferoedd derbyn ar wahân, ac, os dymunant, feini prawf gor-alw ar wahân ar gyfer lleoedd dydd a lleoedd preswyl.

C.4 Os oes mwy o ymgeiswyr sydd yn addas ar gyfer lle preswyl nag sydd o leoedd, preswyl, **rhaid** i'r ysgol ddilyn y meini prawf ar gyfer gor-alw sydd yn y trefniadau derbyn y mae wedi'u cyhoeddi. **Rhaid** pennu'r meini prawf hyn yn unol â darpariaethau'r Cod hwn a'r gofynion cyfreithiol a **rhaid** iddynt **beidio** â chynnwys unrhyw elfen o ddethol ar sail dawn neu allu, ac eithrio lle y caniateir hynny fel arall. **Rhaid** i'r meini prawf ar gyfer gor-alw **beidio** â chynnwys meini prawf ar gyfer penderfynu pa ddisgyblion yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer lle preswyl. **Rhaid peidio** â defnyddio cyfweiliadau nac unrhyw wybodaeth arall a ddefnyddir i farnu ynglŷn ag addasrwydd er mwyn penderfynu ynglŷn â derbyn i leoedd dydd. Dylai gosod meini prawf teg, clir a gwrthrychol ar gyfer derbyn sicrhau bod modd i awdurdodau derbyn ddangos yn glir i rieni ac i ofalwyr sut y dyrannwyd y lleoedd.

Angen lle preswyl

C.5 **Rhaid** i ysgolion preswyl, ar ôl rhoi'r flaenoriaeth ofynnol i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal, roi'r flaenoriaeth nesaf yn eu meini prawf ar gyfer gor-alw am leoedd preswyl i 'blant y mae angen lle preswyl arnynt'. **Rhaid** i ysgolion preswyl sicrhau ei bod yn glir i rieni beth yw ystyr 'angen lle preswyl'.

C.6 Er nad yw'r rhestr isod yn un gynhwysfawr, dyma rai o'r plant yr ystyrir bod angen lle preswyl arnynt:

1. Plant sy'n wynebu risg
2. Plant teuluoedd rhiant sengl
3. Plant o gartref ansefydlog
4. Plant aelodau'r lluoedd arfog Prydeinig dramor
5. Plant gweithwyr allweddol sy'n gweithio dramor (e.e. plant gweithwyr elusennau, plant pobl sy'n gweithio i fudiadau gwasanaethau gwirfoddol, y gwasanaeth diplomyddol neu'r Undeb Ewropeaidd, athrawon, swyddogion gorfodi'r gyfraith a staff meddygol sy'n gweithio dramor) y mae eu gwaith yn mynnu eu bod yn treulio llawer o'r flwyddyn dramor.

C.7 **Dylid** rhoi'r flaenoriaeth i'r plant hynny a ddisgrifir ym mharagraff C.6 (1) i (3) ni waeth ymhle y maent yn byw fel rheol, a **dylid** rhoi'r flaenoriaeth i blant a ddisgrifir ym mharagraff C.6 (4) a (5) os ydynt fel rheol yn byw yn ardal neu yn ardal flaenoriaeth yr ysgol.

Addasrwydd ar gyfer lle preswyl

C.8 Mae gan ysgol breswyl a gynhelir yr hawl i ystyried addasrwydd ymgeisydd ar gyfer lle preswyl cyn penderfynu rhoi lle o'r fath iddo.

C.9 Er mwyn penderfynu a yw ymgeisydd yn addas ar gyfer lle preswyl ai peidio, fe allai'r ysgol ystyried:

- Canlyniad cyfweiliad â'r ymgeisydd a gynhelir yn unswydd at y diben hwnnw.
- Gwybodaeth a ddarperir gan riant, rhiant corfforaethol neu warcheidwad yr ymgeisydd ar ffurflen gais ategol a ddarperir at yr un diben.
- Gwybodaeth a ddarperir gan ysgol bresennol yr ymgeisydd neu - os nad yw'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd - yr ysgol flaenorol, a'r wybodaeth honno wedi'i cheisio a'i darparu at yr un diben.
- Gwybodaeth ynglŷn ag ystyriaethau diogelu a ddarperir gan yr ALI lle mae cartref y plentyn.

C.10 Ystyr 'cyfweiliad' yn y cyd-destun hwn yw cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb neu gyfweiliadau dros y ffôn neu gyfarfodydd â'r ymgeisydd a ddefnyddir i benderfynu a yw'n addas ar gyfer lle preswyl. Nid yw'r gwaharddiad cyffredinol ar gyfweild fel rhan o'r broses derbyn yn berthnasol i gyfweiliadau o'r fath.

C.11 **Rhaid** i ysgolion preswyl **beidio** â defnyddio unrhyw brosesau eraill i benderfynu a yw rhywun yn addas ai peidio. **Rhaid** iddynt **beidio** â gofyn am wybodaeth ynglŷn â chefnidir crefyddol nac ystyried gwybodaeth o'r fath (onid yw hynny'n berthnasol i'r asesiad ar sail y trefniadau derbyn a gyhoeddwyd), nac ychwaith am amgylchiadau'r cartref, gallu academaidd, gallu ym maes chwaraeon neu'r celfyddydau, diddordebau academaidd nac unrhyw faterion allanol eraill megis mân gamymddwyn. Os rhoddir unrhyw wybodaeth o'r fath, **rhaid** ei diystyru.

C.12 Nid oes gofyn i awdurdodau derbyn ddefnyddio cyfweiliadau a ffurflenni cais ategol i asesu addasrwydd, ond os ydynt yn gwneud hynny, **rhaid** iddynt roi sylw i'r canllawiau sydd yn y Cod hwn.

C.13 **Rhaid peidio** â mabwysiadu addasrwydd ar gyfer lle preswyl yn faen prawf ar gyfer gor-alw. **Rhaid** i ysgolion sy'n cynnig lleoedd preswyl bennu eu meini prawf ar gyfer gor-alw yn unol â'r darpariaethau gorfodol a'r canllawiau a geir ym Mhennod 2 y Cod hwn. **Rhaid** i'r trefniadau derbyn a gyhoeddir ddweud y bydd yr ysgol hefyd yn dilyn proses i benderfynu a yw disgybl yn addas ar gyfer lle preswyl ac y bydd hynny'n golygu cyfweiliad a/neu ddefnyddio ffurflenni cais ategol (os bydd yr ysgol breswyl yn penderfynu ei bod yn dymuno defnyddio cyfweiliadau a ffurflenni cais ategol).

Diffinio addasrwydd

C.14 Nid yw addasrwydd yn golygu'r plant hynny sy'n cydweddu orau ag ethos yr ysgol. Ystyr addasrwydd yw:

- A yw plentyn yn peri risg ddifrifol i iechyd a diogelwch disgyblion preswyl eraill, neu
- A yw plentyn yn addas ar gyfer lle preswyl o safbwynt ei ddatblygiad.

C.15 Ar gyfer lleoedd preswyl, mae gan yr awdurdodau derbyn yr hawl i farnu bod hanes anawsterau ymddwyn difrifol megis camymddwyn rhywiol, cynnau tanau'n fwriadol

neu drais corfforol eithafol yn debygol o olygu nad yw ymgeisydd yn addas ar gyfer lle preswyl. Ni fyddai hyn yn cynnwys mân enghreifftiau o gamymddwyn.

Paratoi ar gyfer cyfweiliad a'i gynnal

C.16 Wrth baratoi ar gyfer cyfweiliadau am leoedd preswyl a chynnal cyfweiliadau o'r fath, rhaid i ysgolion:

- Ganolbwyntio'n unig ar a fyddai'r ymgeisydd yn gallu ymdopi ag amgylchedd preswyl a chael budd ohono.
- Bod yn deg ac yn agored. **Rhaid** dweud wrth blant a rhieni beth yw'r drefn ymlaen llaw, a rhaid iddynt wybod beth i'w ddisgwyl yn y cyfweiliad.
- Rhoi cyfle i blant ddweud, ar wahân i'w rhieni, a ydynt am gael lle preswyl ai peidio.

C.17 Mae'n arfer da rhoi gwybod yn fanwl ymlaen llaw i ymgeiswyr ac i'w rhieni beth yw diben a strwythur y cyfweiliad. **Dylid** sicrhau bod ymgeiswyr yn teimlo'n gartrefol yn ystod y cyfweiliad, a **rhaid** i gyfweilwyr wneud pob ymdrech resymol i ddarparu ar gyfer anghenion rhywun ag anghenion arbennig neu anabledd (e.e. nam ar eu clyw neu anhawster llefaru). Dan rai amgylchiadau, gall fod angen cynnal cyfweiliadau drwy gyfrwng dehonglydd/cyfieithydd.

C.18 **Rhaid** i awdurdodau derbyn **beidio** â:

- Mynnu bod plant yn sefyll unrhyw ffurf ar brawf ysgrifenedig na llafar i brofi eu gwybodaeth, eu gallu na'u hagweddau ac ni ddylid gofyn iddynt wneud hynny ychwaith.
- Ceisio didoli'r disgyblion y mae ganddynt hanes mân gamymddwyn heb i hynny arwain at eu gwahardd yn barhaol ddwywaith. Mae hyn yn cynnwys peidio â gofyn cwestiynau er mwyn ceisio cael gwybod a yw'r ymgeisydd yn ymateb i sefyllfaoedd o wrthdaro drwy geisio cymod neu drwy dynnu'n groes.
- Ceisio didoli disgyblion nad ydynt mor allblyg, mor hyderus neu mor huawdl â disgyblion eraill.
- Ceisio gwybodaeth am gefndir y rhieni, eu sefyllfa ariannol, eu statws priodasol neu eu crefydd.
- Ceisio gwybodaeth am amgylchiadau'r cartref.
- Ceisio cael gwybodaeth am fân gamymddwyn, absenoldeb, gallu academaidd, gallu ym maes chwaraeon, y celfyddydau neu unrhyw ffurf arall ar gyflawni neu allu. neu
- Gofyn cwestiynau ynghylch a yw'r ymgeisydd yn adnabod unrhyw ddisgybl sydd eisoes yn ddisgybl preswyl.

C.19 Os bydd awdurdod derbyn yn penderfynu nad yw ymgeisydd yn addas ar gyfer lle preswyl, **rhaid** iddo roi gwybod i'r rhieni yn ysgrifenedig am y rhesymau dros y penderfyniad ac, fel sy'n wir am wrthod derbyn yn gyffredinol (h.y. ar gyfer lle dydd), am eu hawl i apelio ac â phwy y dylid cysylltu er mwyn cychwyn y broses apel.

Atodiad D: Fforymau derbyn

D.1 Mae gan fforymau derbyn rôl allweddol o ran sicrhau system dderbyn deg nad yw'n rhoi'r naill blentyn dan anfantais o'i gymharu â'r llall a'i bod yn syml ac yn rhwydd i rieni ei deall. Mae fforymau'n gyfrifol am fonitro'r cydymffurfio â'r Cod hwn ac os ydynt yn meddwl bod y trefniadau derbyn yn annheg neu heb fod yn unol â'r Cod hwn ac os nad oes modd datrys y peth yn lleol, cânt gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru iddynt hwy ei ystyried.

Dylid darllen y canllawiau hyn yn unol â [Rheoliadau Addysg \(Fforymau Derbyn\) \(Cymru\) 2003](#).

Gofyniad cyfreithiol

D.2 Mae adran 85A o [Ddeddf 1998](#) (fel y'i mewnosodwyd gan adran 46 o [Ddeddf Addysg 2002](#)) yn mynnu bod pob ALI yn sefydlu fforwm derbyn. Bydd fforymau derbyn yn cynnig cyfrwng i awdurdodau derbyn a phartïon allweddol eraill sydd â diddordeb drafod effeithiolrwydd y trefniadau derbyn lleol, ystyried sut mae delio â materion derbyn anodd a chynghori awdurdodau derbyn ynglŷn â sut y gellir gwella'u trefniadau. **Rhaid** i awdurdodau derbyn pob ysgol a gynhelir, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw i unrhyw gyngor a gynigir gan y fforwm. Caiff ALI sefydlu fforwm ar y cyd ag ALI arall neu gyda mwy nag un ALI arall i ystyried y trefniadau derbyn mewn mwy nag un ardal awdurdod neu i gynghori yn eu cylch.

Rôl fforymau derbyn

D.3 Mae gan fforymau derbyn rôl allweddol o ran sicrhau system dderbyn deg sy'n hyrwyddo tegwch cymdeithasol, ac, o dan adran 84 o [Ddeddf 1998](#), **rhaid** iddynt weithredu'n unol â'r Cod hwn. Disgrifir rôl fforymau derbyn mewn Rheoliadau⁴². **Rhaid** i fforymau derbyn:

- Ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau derbyn sydd ar gael eisoes a'r rhai arfaethedig er budd y plant a'r rhieni yn ardal yr All.
- Hyrwyddo cytundeb ynglŷn â materion derbyn.
- Ystyried pa mor gynhwysfawr a hwylus yw'r llenyddiaeth a'r wybodaeth ynglŷn â derbyn a gynhyrchir ar gyfer rhieni gan bob awdurdod derbyn yn ardal y fforwm.
- Ystyried pa mor effeithiol yw unrhyw drefniadau derbyn cydlynol arfaethedig;
- Ystyried sut y gellid gwella'r gweithdrefnau derbyn ac i ba raddau y mae'r nifer a dderbynnir mewn gwirionedd yn cyfateb i'r niferoedd derbyn a gyhoeddwyd.
- Monitro nifer y plant a dderbynnir sy'n cyrraedd ardal yr ALI y tu allan i'r rownd derbyn arferol gyda golwg ar hyrwyddo trefniadau ar gyfer rhannu'r plant hynny'n deg ymhlith yr ysgolion lleol, gan ystyried unrhyw safbwynt ynglŷn â'r hyn a fyddai orau gan rieni a fynegwyd yn unol â'r trefniadau a wnaethpwyd dan adran 86(1) o [Ddeddf 1998](#) ac yn unol â'r Cod hwn.
- Hyrwyddo trefniadau derbyn effeithiol i blant ag AAA, plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol.
- Ystyried unrhyw faterion eraill sy'n codi ynglŷn â derbyn.

⁴². [Rheoliadau Addysg \(Fforymau Derbyn\) \(Cymru\) 2003](#).

D.4 **Dylai'r** fforymau derbyn ystyried dyddiadau ymgeisio priodol ar gyfer pob derbyniad i ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu hardal, gan ymgynghori ag awdurdodau cyfagos fel y bo'n briodol.

Sicrhau trefn deg

D.5 Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, **rhaid** i'r fforymau derbyn:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr, effeithiol a hwylus yw'r cyngor a'r cyfarwyddyd sydd ar gael i rieni gan yr ALLau a'r ysgolion drwy gyfrwng y prosbectws cyfansawdd a gyhoeddwyd (gweler paragraff 2.12).
- Cytuno ar drefniadau i sicrhau bod plant a allai fod yn agored i niwed a'r rheini sy'n cyrraedd yr ardal y tu allan i'r rownd derbyn arferol yn cael eu lleoli mewn ysgol cyn gynted â phosibl. Mae plant agored i niwed yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd o'r ysgo yn flaenorol, plant sy'n derbyn gofal, troseddwr ifanc, plant gydag AAA a/neu anabledau, plant Sipsiwn a Theithwyr neu'r plant hynny y mae'n anodd eu lleoli neu sydd ag ymddygiad heriol. Dylid rheoli'r broses o symud plant o'r fath mor gyflym ac mor sensitif â phosibl. Dylai'r fforwm sicrhau bod pob awdurdod derbyn yn yr ardal yn ymwybodol o'r trefniadau y cytunwyd arnynt a dylent eu monitro i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.
- Monitro y cydymffurfir â'r Cod Derbyn i Ysgolion, Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a deddfwriaeth berthnasol.

Adroddiadau blynyddol am effeithiolrwydd trefniadau derbyn lleol

D.6 **Rhaid** i fforymau derbyn ddarparu adroddiad blynyddol cryno a **ddylai** fod ar gael i'r cyhoedd (gan ystyried cyfeirio at ddisgyblion yn ddienw) ac a **ddylai** gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Aelodau'r fforwm.
- Dyddiadau cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.
- Faint oedd yn bresennol.
- Faint o ddymuniadau'r rhieni a wireddwyd.
- Ffaint o apelau derbyn a gafwyd ar gyfer ysgolion yn yr ardal (gan gynnwys gwybodaeth am faint oedd yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus).
- Pa drefniadau derbyn a roddwyd ar waith er budd plant agored i niwed.
- Pa mor dda y mae trefniadau derbyn yn ystod y flwyddyn y cytunwyd arnynt yn gweithio a nifer y plant a dderbynnir i bob ysgol dan y trefniadau.
- Crynodeb byr o'r prif broblemau derbyn yn yr ardal a sut y mae'r fforwm wedi mynd i'r afael â hwy.

D.7 Mae adroddiadau o'r fath yn gyfrwng gwerthfawr er mwyn sicrhau system agored a theg gan ei bod yn **rhaid** i awdurdodau derbyn roi sylw i unrhyw gyngor a gyhoeddir gan y fforwm derbyn. **Dylid** anfon copi o'r adroddiad at Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn, a'i ddsbarthu i'r rheini sydd â diddordeb personol mewn sicrhau y diwellir anghenion plant agored i niwed.

Aelodaeth

D.8 Disgrifir aelodaeth graidd fforymau derbyn yn y Rheoliadau ac fe'i dangosir yn y tabl isod:

| Aelodau a enwebir gan | Nifer |
|--|----------|
| ALI - unrhyw un o aelodau neu o swyddogion yr awdurdod | 1 i 5 |
| Cynrychiolwyr Esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru | 1 i 3 |
| Cynrychiolwyr Esgobaethau'r Eglwys Gatholig | 1 i 3 |
| Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol a reolir | 1 i 3 |
| Ysgolion - sefydledig | 1 i 3 |
| Ysgolion - gwirfoddol a gynorthwyr | 1 i 3 |
| Cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr | 1 i 3 |
| Cynrychiolwyr y gymuned leol | hyd at 3 |

D.9 **Dylai** pawb sy'n cynrychioli ysgol fod yn bennaeth neu'n llywodraethwr (ac eithrio un a benodir i'r ysgol gan yr ALI ac sydd hefyd yn aelod o'r awdurdod). **Dylai'r** fforymau derbyn gynnwys cynrychiolwyr ALIau cyffiniol, lle bydd, er enghraifft, ystyriaethau trawsffiniol sylweddol, neu lle bydd ganddynt gyfraniad i'w wneud. Byddai'r cynrychiolwyr hyn yn ychwanegol at gynrychiolwyr yr ALI cartref.

D.10 Gall aelodaeth graidd pob fforwm ofyn i'r ALI benodi unrhyw un y mae'n ei ystyried yn briodol i gynrychioli buddiannau sylweddol yn y gymuned leol. Er enghraifft, mewn ardaloedd lle ceir crynodiad sylweddol o'r lluoedd arfog, **rhaidd** i'r fforwm wahodd cynrychiolydd o luodd y DU, a lle bo hynny'n briodol, **dylid** penodi cynrychiolwyr grwpiau ffydd nad ydynt eisoes wedi'u cynrychioli, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

D.11 Os bydd y fforwm yn meddwl y byddai'n fuddiol penodi aelodau ychwanegol i gynrychioli buddiannau unrhyw garfan yn y gymuned leol, **dylai'r** ALI benodi aelodau o'r fath. Er enghraifft, lle bydd y fforwm yn ystyried materion sy'n ymwneud â derbyn plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal, **dylai** ofyn i'r ALI benodi swyddogion o'r ALI sy'n arbenigwyr ym maes gofal cymdeithasol plant. Lle bydd angen ymchwilio i fater penodol a'i ystyried yn fwy manwl, **dylai'r** ALI greu gweithgor (ac nid oes angen i hwn gynnwys aelodau'r fforwm) i wneud y gwaith hwn ac adrodd yn ôl i'r fforwm.

Cyfnod gwasanaeth

D.12 Penodir aelodau craidd ac aelodau ysgolion y fforwm am gyfnod na fo'n hwy na 4 blynedd, ac wedi hynny, byddant yn gymwys i'w hailbenodi. Penodir aelodau eraill y fforwm ar y telerau a bennir gan yr aelodau craidd, gan gynnwys a ydynt yn gymwys i'w hailbenodi ar ddiwedd eu cyfnod ai peidio. **Dylid** adolygu aelodaeth y fforwm ym mis Medi bob blwyddyn. Os bydd aelod ysgol yn rhoi'r gorau i fod yn bennaeth neu'n llywodraethwr ysgol, ni chânt barhau'n aelod o'r fforwm yn rhinwedd hynny.

D.13 Caiff yr ALI hefyd sefydlu is-bwyllgorau i gynorthwyo'r fforwm wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau. Gall is-bwyllgorau fod yn briodol ar gyfer ystyried materion cynradd ac uwchradd ar wahân, neu, os yw'r ardal dan sylw'n ardal eang a bod ardaloedd o'i mewn sydd â phatrymau derbyn gwahanol i'w gilydd, gallai is-bwyllgorau ar wahân ystyried materion ym mhob ardal, cyn dod â hwy yn ôl gerbron y prif fforwm i'w trafod.

Gweithdrefn ar gyfer cyfarfodydd a phenodi swyddogion

D.14 Yn ôl y Rheoliadau, mae'n ofynnol i fforymau gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ond yr aelodau craidd eu hunain sy'n pennu'r weithdrefn ar gyfer y cyfarfodydd. **Dylid** rhoi 7 diwrnod gwaith o rybudd o leiaf i bob aelod o'r fforwm ynglŷn ag amser a dyddiad y cyfarfod gan roi unrhyw ddogfennau perthnasol iddynt ar gyfer y cyfarfod hwnnw 7 diwrnod ymlaen llaw. **Rhaid** i'r fforwm benodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd, a gall y rheini fod yn aelodau o'r fforwm neu beidio, ynghyd ag Ysgrifennydd i gynnull ei gyfarfodydd.

Cyhoeddi cyngor a gwrthwynebu

D.15 **Dylai** fforymau derbyn geisio sicrhau consensws ymhlith yr aelodau i gyd yn hytrach na dibynnu ar farn y mwyafrif ac ni **ddylai** ond gyhoeddi cyngor sy'n cynrychioli'r safbwyntiau y mae'r fforwm i gyd yn gytûn arnynt.

D.16 **Rhaid** i'r ALI, fan leiaf, gyhoeddi cyngor y fforwm yn adran derbyn-i-ysgolion ei wefan ac anfon copïau at bob awdurdod derbyn yn yr ardal. **Dylai'r** cyngor hefyd gael ei gynnwys yn y prospectws cyfansawdd a gyhoeddir gan yr ALI bob blwyddyn i rieni.

Atodiad E: Deddfwriaeth berthnasol arall

E.1 Isod, nodir y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd fwyaf perthnasol i benderfyniadau derbyn. **Rhaid** i awdurdodau derbyn, dyfarnwyr, paneli apêl, ALLau ac ysgolion gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, yn ogystal â gweithredu'n unol â darpariaethau'r Cod hwn a dilyn ei ganllawiau. Nod yr wybodaeth sydd yma yw cyfeirio pobl at y gyfraith berthnasol; nid yw'n ceisio darparu arweiniad diffiniol ynglŷn â dehongli'r gyfraith: mater i'r llys yw hynny.

Deddf Cydraddoldeb 2010

E.2 Mae'r Ddeddf hon yn cydgrynhoi'r gyfraith sy'n gwahardd gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid, ac yn ehangu'r rhestr o nodweddion gwarchoddedig. **Rhaid** i'r holl ysgolion roi sylw dyledus i'w rhwymedigaethau o dan y Ddeddf ac adolygu eu polisïau a'u harferion i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf, hyd yn oed os credant eu bod eisoes yn gweithredu mewn ffordd anwahaniaethol.

E.3 **Rhaid** i awdurdod derbyn **beidio** â gwahaniaethu ar sail anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; neu gyfeiriadedd rhywiol, yn erbyn unigolyn yn y trefniadau a'r penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod derbyn ynghylch pwy y dylid cynnig ei dderbyn yn ddisgybl.

E.4 **Rhaid** i awdurdod derbyn **beidio** ag aflonyddu ar rywun sydd wedi ymgeisio i gael ei dderbyn yn ddisgybl, mewn perthynas â'i anabledd; hil; neu ryw.

E.5 **Rhaid** i awdurdod derbyn **beidio** ag erlid rhywun mewn perthynas â gweithred warchoddedig sydd wedi'i chyflawni, neu y credir ei bod wedi'i chyflawni gan yr unigolyn hwnnw (e.e. dwyn achos o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn y trefniadau a'r penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod derbyn ynghylch pwy y dylid cynnig ei dderbyn yn ddisgybl.

E.6 Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys ambell eithriad i'r gwaharddiad ar wahaniaethu ar sail crefydd neu gred a rhyw. Mae ysgolion sydd wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru yn rhai â chymeriad crefyddol (ysgolion ffydd) wedi'u heithrio rhag rhai agweddau ar y gwaharddiad ar wahaniaethu ar sail crefydd neu gred, ac mae hyn yn golygu eu bod yn gallu penderfynu a ddylid derbyn plentyn yn ddisgybl ai peidio ar sail crefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn caniatáu i ysgolion un rhyw wahaniaethu ar sail rhyw yn eu trefniadau derbyn.

E.7 Mae awdurdodau derbyn hefyd yn gorfod cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac felly mae'n **rhaid** iddynt roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid, i hybu cyfle cyfartal, ac i feithrin perthnasoedd da mewn perthynas â phobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

E.8 Y nodweddion gwarchoddedig i'r dibenion hyn yw: anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol.

E.9 Mae mwy o ganllawiau ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gael ar wefan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth a chan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Y Ddeddf Hawliau Dynol

E.10 Mae Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi'r hawl i gael mynediad at addysg. Nid yw'r hawl hon yn ymestyn i sicrhau lle mewn ysgol benodol. Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau derbyn ystyried rhesymau rhieni dros fynegi'r hyn a fyddai orau ganddynt pan fyddant yn penderfynu ynglŷn â dyrannu lleoedd mewn ysgolion, er mwyn rhoi sylw i hawliau rhieni dan y Ddeddf, er na fydd hyn o anghenraid yn arwain at ddyrannu lle. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, hawl y rhieni i sicrhau bod addysg eu plentyn yn cydymffurfio â'u hargyhoeddiadau crefyddol neu athronyddol hwy eu hunain (cyn belled â bod hynny'n gydnaws â darparu hyfforddiant effeithlon ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol).

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

E.11 Mae'r CCUHP yn gytundeb rhyngwladol, sy'n dwyn hawliau dynol ychwanegol ynghyd mewn un Confensiwn, sy'n ceisio diogelu a chefnogi plant a'u helpu i sicrhau eu lles.

E.12 Mae'r CCUHP wedi'i gynnwys yng nghyfraith ddomestig Cymru, cyn belled ag y mae'n effeithio ar Weinidogion Cymru, drwy'r Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Atodiad F: Ffurflen gais enghreifftiol

Mae hon yn ffurflen gais enghreifftiol a dylid ei haddasu i adlewyrchu anghenion yr awdurdod derbyn.

Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Derbyn

Cais am le mewn ysgol [Fabanod/lau/Gynradd/Uwchradd] (DS: Dylid darparu ffurflenni ar wahân ar gyfer pob blwyddyn derbyn berthnasol).

Darllenwch y ffurflen hon yn ofalus os gwelwch yn dda gan roi cynifer o fanylion ag y bo modd wrth ei llenwi. Defnyddir yr wybodaeth a rowch i ddyrannu lle mewn ysgol i'ch plentyn.

1. Enw llawn y plentyn [A]
2. Dyddiad geni'r plentyn
3. Rhyw'r plentyn G/B
4. Man preswyllo'r plentyn, gan gynnwys y cod post [B]
5. Enw/enwau'r rhiant/rhieni [C]
6. Cyfeiriad a rhif ffôn y rhiant/rhieni

Ffoniwch [enw'r unigolyn] ar [rhif ffôn] i gael gwybodaeth am eich dalgyrch, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Eglwys yng Nghymru. [D]

7. Nodwch isod yr ysgol/ysgolion sydd orau gennych (yn nhrefn eich dewis); cewch ddewis mwy nag un a rhoi rheswm dros eich dewis/dewisiadau. [E]
 - 1.....
 - 2.....
 - 3.....

*Nid yw dweud pa ysgol/ysgolion sydd orau gennych yn gwarantu lle yn yr ysgol o'ch dewis, ond bydd eich plentyn yn cael blaenoriaeth dros blant **nad** yw eu rhieni wedi dweud mai'r ysgol honno sydd orau ganddynt. Os nad ydych yn dweud pa ysgol fyddai orau gennych, neu os byddwch yn cyflwyno'r ffurflen hon yn hwyr bydd yn llai tebygol y caiff eich plentyn fynychu eich dewis ysgol.*

8. A yw'r plentyn yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal/Plentyn oedd yn Arfer Derbyn Gofal? Ydyw/Nac ydyw. Os ydyw, nodwch enw'r rhiant/cyn-riant corfforaethol hefyd. [F]
9. A oes gan y plentyn ddatganiad AAA sy'n enwi ysgol? Oes/Nac oes. Os oes, pa ysgol a enwir? [G]

10. Rhowch enwau a dyddiadau geni brodyr a chwirydd y plentyn sydd eisoes yn mynychu'r ysgol/ysgolion o'ch dewis. [H]

| | | | | | |
|-----|-------|--------------|-------|-------|-------|
| Enw | _____ | Dyddiad Geni | _____ | Ysgol | _____ |
| Enw | _____ | Dyddiad Geni | _____ | Ysgol | _____ |

11. Rhowch enw ysgol fabanod/iau/gynradd bresennol y plentyn. [I]

.....

12. Nodwch amgylchiadau meddygol arbennig eich plentyn, os oes rhai. [J]

.....

13. A yw'r plentyn wedi cael ei fedyddio? Ydyw/Nac ydyw. Os ydyw, rhowch gopi o'r dystysgrif fedydd gyda'r ffurflen hon. [K]

.....

14. A yw'r plentyn/ A yw rhieni'r plentyn yn aelodau cymunol yn Eglwys X? Ydynt/Nac ydynt. Os ydynt, rhowch ddatganiad cefnogol gyda'r ffurflen hon gan yr offeiriad/y gweinidog neu rywun arall sy'n cynrychioli'r Eglwys. [L]

.....

*Os bydd llai o geisiadau ar gyfer eich dewis ysgol na'r nifer o leoedd sydd ar gael, neu os bydd yr un nifer o geisiadau ag sydd o leoedd, derbynnir **pob** ymgeisydd. **Fodd bynnag**, os bydd mwy o geisiadau ar gyfer eich dewis ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir yr wybodaeth a rowch isod i bennu blaenoriaeth eich plentyn ar gyfer lle yn unol â'r meini prawf ar gyfer gor-alw, sef:*

[Rhestr o'r meini prawf ar gyfer gor-alw.]

Bydd yr ysgolion a ffefrir gennych yn cael eu hystyried yn gyfartal ac fe gewch gynnig lle yn yr ysgol a ffefrir gennych fwyaf ac sydd â lle.

Rhaid dychwelyd y ffurflen hon at [enw] yn [cyfeiriad] erbyn [dyddiad]. [M] Ystyrir ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad hwn gyda'i gilydd a dyrennir y lleoedd.

Llofnod _____ **Rhiant**

Dyddiad _____

Ar ôl i chi ei llenwi, argymhellwn eich bod yn cadw copi o'r ffurflen ar gyfer eich cofnodion.

Nodiadau

- A. Nid yw'n briodol gofyn am "Enw bedydd" gan nad yw pob ymgeisydd o anghenraid wedi'i fedyddio.
- B. Lle bydd angen, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod yn dweud bod angen tystiolaeth o'r man preswyllo.
- C. O ran person ifanc neu blentyn, mae'r term 'Rhiant' yn cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant ond sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb neu ofal rhiant dros y plentyn.
- D. Rhowch enw a rhif ffôn y sawl sydd â gwybodaeth am ddalgylch ysgolion Cymraeg/Saesneg/enwadol.
- E. Ni chewch gyfyngu ar nifer y dewisiadau y caiff rhiant eu rhestru.
- F. Rhaid i'r awdurdod derbyn perthnasol gymeradwyo pob cais a wneir ar ran Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant oedd yn Arfer Derbyn Gofal.
- G. Os enwir ysgol mewn datganiad AAA, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod derbyn dderbyn y plentyn i'r ysgol honno.
- H. Ni chewch ofyn am fanylion brodyr a chwirydd oni fydd y rhain yn un o'r meini prawf ar gyfer gor-alw sydd yn eich trefniadau derbyn. Dylech egluro yn eich trefniadau derbyn sut y bwriadwch ddiffinio 'brodyr a chwirydd' e.e. brodyr a chwirydd llawn, hanner brodyr a chwirydd, rhai a fabwysiedir a brodyr a chwirydd maeth. Ni chaiff y maen prawf hwn gynnwys perthnasau sydd wedi mynychu'r ysgol yn y gorffennol.
- I. Fel arfer, dim ond pan fo system ysgolion bwydo ar waith y dylech ofyn am ysgol flaenorol y plentyn. Fodd bynnag, os oes angen yr wybodaeth at ddibenion gweinyddol gellir gofyn amdani ond rhaid i chi sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r rheswm am y cais ac na fydd yr wybodaeth yn cael ei hystyried wrth ddyrannu lle.
- J. Dim ond os yw'r meini prawf ar gyfer gor-alw'n rhoi'r flaenoriaeth i blant dan amgylchiadau meddygol y cewch ofyn y cwestiwn hwn.
- K. Dim ond os yw eich meini prawf ar gyfer gor-alw'n rhoi'r flaenoriaeth i blant a fedyddiwyd yn ffydd yr ysgol y cewch ofyn y cwestiwn hwn.
- L. Dim ond os yw eich meini prawf ar gyfer gor-alw'n rhoi'r flaenoriaeth i blant sydd eu hunain, neu y mae eu rhieni, yn aelodau cymuno yn yr Eglwys a enwir y cewch ofyn y cwestiwn hwn.
- M. Rhowch enw a chyfeiriad y sawl y dylid anfon ffurflenni derbyn ato.

Atodiad G: Cychwyn

| Darpariaeth | Dod i rym |
|--|---|
| Eithriadau maint dosbarthiadau babanod yng nghyswllt yr holl rai (paragraff 3.48) nad ydynt wedi'u rhestru isod. | Ar gyfer blwyddyn ysgol 2013/14. |
| Eithriadau maint dosbarthiadau babanod yng nghyswllt plant a oedd yn arfer derbyn gofal, plant i bobl yn y Lluoedd Arfog, a gefeilliaid neu frodyr a chwiorydd eraill o enedigaethau lluosog (paragraff 3.48). | Ar gyfer blwyddyn ysgol 2014/15. |
| Dyddiad cynnig cyffredin ar gyfer ysgolion uwchradd (paragraff 2.24). | Yng nghyswllt y trefniadau derbyn ar gyfer 2015/16. |
| Dyddiad cynnig cyffredin ar gyfer ysgolion cynradd (paragraff 2.24). | Yng nghyswllt y trefniadau derbyn ar gyfer 2018/19. |

Atodiad H: Dogfennau cysylltiedig

- Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisiau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion – Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr Rhif: 15/2011
- Canllawiau Gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2009
- Cod Apelau Derbyn i Ysgolion
- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr Rhif: 15/2004
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Addysg a Sgiliau 2008
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Plant 1989
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Dogfen Wybodaeth Rhif: 096/2011
- Gorchymyn Addysg (Dechrau Oedran Ysgol Gorfodol) 1998
- Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 2007
- Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru – Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr Rhif: 021/2011
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- R v Rotherham Metropolitan Council ex parte Clark and others (1997) EWCA Civ 2768
- Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009
- Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Addysg (Meysydd Perthnasol ar gyfer Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn) 1999
- Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2013⁴³
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009
- Rheoliadau Addysg (Ysgolion Canol) (Cymru) 2012
- Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Amrywiadau i'r Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2013
- Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Dyddiad Cynnig Cyffredin) (Cymru) 2013
- Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013
- Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011
- Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

⁴³ I'w gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru: mis Medi 2013

- Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2006
- Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006
- Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr Rhif: 12/2007
- Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr – Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr 003/2008
- Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell

Geirfa

Addysgu yn y Cartref/Dysgu Hyblyg

Pan addysgir plant yn eu cartrefi, fel arfer gan rieni ond weithiau gan diwtoriaid, yn hytrach nag mewn lleoliad ffurfiol. Bydd rhai plant yn mynychu ysgolion yn rhan-amser ar ddiwrnodau a drefnir rhwng y rhieni a'r penaethiaid.

Ardal berthnasol

O fewn ardal yr ysgol (a bennir gan ei ALI ac yna'i hadolygu bob dwy flynedd) rhaid i'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol honno ymgynghori â phob ysgol arall ynghylch eu trefniadau derbyn.

Awdurdod derbyn

Y corff sy'n gyfrifol am bennu trefniadau derbyn ysgol a'u rhoi ar waith. Ar gyfer ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir, yr ALI yw'r awdurdod derbyn; ac ar gyfer ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, corff llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn.

Bandio

System o feini prawf ar gyfer gor-alw lle bydd yr holl blant sy'n gwneud cais am le mewn ysgol sy'n bandio plant yn cael eu rhoi mewn bandiau gallu ar sail eu perfformiad mewn prawf neu asesiad arall. Yna, dyrennir y lleoedd er mwyn i'r plant sy'n cael eu derbyn gan yr ysgol naill ai adlewyrchu proffil gallu'r plant hynny sy'n gwneud cais i'r ysgol, y plant hynny sy'n gwneud cais i grŵp o ysgolion sy'n bandio ar y cyd, proffil gallu'r ALI neu'r proffil gallu cenedlaethol.

Blwyddyn benderfynu

Y flwyddyn ysgol sy'n dod yn union o flaen y flwyddyn gynneg. Dyma'r flwyddyn ysgol y bydd awdurdodau derbyn yn penderfynu eu trefniadau derbyn ynddi.

Blwyddyn derbyn arferol

Y pwynt y caiff disgyblion eu derbyn fel rheol i'r ysgol, er enghraifft, dosbarth derbyn neu flwyddyn 7.

Blwyddyn ysgol

Yng nghyswllt ysgol, mae'n golygu'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r tymor ysgol cyntaf i gychwyn ar ôl Gorffennaf ac sy'n gorffen gyda dechrau'r tymor cyntaf i gychwyn ar ôl y Gorffennaf dilynol.

Cwynion

Gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau ymyrryd yn y Deddfau Addysg i ystyried cwynion am weithredoedd awdurdod derbyn yng Nghymru.

Cyfrifoldeb rhiant

Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant" yn [Neddf Plant 1989](#) a golyga'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd, yn unol â'r gyfraith, gan riant plentyn mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo. Nodir yn [Neddf Plant 1989](#), os nad oedd rhieni naturiol plentyn yn briod adeg genedigaeth y plentyn, mai'r fam fydd â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig. Serch hynny, gall y tad gael cyfrifoldeb rhiant drwy amryw sianelau cyfreithiol. Yr achos bellach (ers i [Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002](#) ddod i rym) yw y bydd tad sydd wedi'i gofrestru felly yn y gofrestr o enedigaethau a marwolaethau hefyd yn cael cyfrifoldeb rhiant yn awtomatig. Yn ogystal, mae bellach yn bosibl i 'lys-rieni' (sy'n cynnwys

partneriaid sifil) gael cyfrifoldeb rhiant, er enghraifft drwy wneud cytundeb â rhiant sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod

Mae [Deddf 1998](#) yn mynnu bod plant 5, 6 a 7 oed yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau lle na cheir mwy na 30 o blant i bob athro/athrawes.

Cyrff llywodraethu

Cyrff corfforaethol yw cyrff llywodraethu ysgolion sy'n gyfrifol am gynnal ysgolion gyda golwg ar hyrwyddo safonau cyflawni addysgol uchel. Mae gan gyrff llywodraethu dair rôl allweddol: pennu'r cyfeiriad strategol, sicrhau atebolrwydd a monitro a gwerthuso. Cyrff llywodraethu yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer eu hysgolion mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig.

Cytundebau cartref-ysgol

Datganiad sy'n esbonio: nodau a gwerthoedd yr ysgol; cyfrifoldebau'r ysgol tuag at ei disgyblion sydd o oedran ysgol gorfodol; cyfrifoldebau rhieni'r disgybl; a beth y mae'r ysgol yn ei ddisgwyl gan ei disgyblion. Nid yw'n dderbyniol mynnu llofnod ar gytundeb cartref-ysgol fel amod ar gyfer derbyn plentyn i ysgol.

Dalgylch

Ardal ddaearyddol ac o'i mewn gellir rhoi blaenoriaeth i blant ar gyfer eu derbyn i ysgol. Mae dalgylch yn rhan o drefniadau derbyn ysgol ac felly, **rhaid** ymgynghori yn ei gylch, penderfynu arno a'i gyhoeddi yn yr un modd ag a wneir ar gyfer trefniadau derbyn eraill. Caiff ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ddewis diffinio'u dalgylch drwy gyfeirio at ffin y plwyf. **Rhaid** gwneud hyn yn glir.

Diwrnod ysgol

Diffinir diwrnod ysgol adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel a ganlyn: "mae 'diwrnod ysgol', mewn perthynas ag ysgol, yn golygu unrhyw ddiwrnod y cynhelir sesiwn ysgol yn yr ysgol honno". Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn fore neu'n session brynhawn, felly diwrnod ysgol yw unrhyw ddiwrnod bydd yr ysgol yn cwrdd an y diwrnodcyfan neu ran ohono.

Dosbarth meithrin

Rhan o ysgol gynradd a ddefnyddir gan ddisgyblion cyn-ysgol – rhai o dan yr oedran ysgol gorfodol – ac sy'n darparu ystod o brofiadau addysgol strwythuredig sy'n addas ar gyfer plant o'r oedran hwnnw.

Eithriadau maint dosbarthiadau babanod

Eithriadau penodol yw'r rhain i'r gofyniad statudol **na chaiff** dosbarthiadau babanod fod yn fwy na 30 o blant i bob athro/athrawes. Gweler paragraffau 3.45 – 3.50 am yr holl wybodaeth.

Fforwm derbyn

Corff statudol lleol sy'n gyfrifol am gydlynu effeithiolrwydd a thegwch y trefniadau derbyn lleol. Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau derbyn ac ysgolion, esgobaethau, y gymuned leol a llywodraethwyr sy'n rhieni.

Gosod amodau

Maen prawf ar gyfer gor-alw sy'n pennu amodau sy'n effeithio ar y flaenoriaeth a roddir i gais, er enghraifft ystyried dewisiadau eraill neu roi'r flaenoriaeth i deuluoedd sy'n cynnwys

math arbennig o ysgol yn eu dewisiadau eraill (e.e. lle mae'r ysgolion eraill o'r un enwad crefyddol). Gwaherddir gosod amodau yn y Cod hwn.

Grŵp oedran perthnasol

Y grŵp oedran ar gyfer derbyn plant fel rheol. **Rhaid** i bob grŵp oedran perthnosol fod â threfniadau derbyn yn eu lle, gan gynnwys nifer y derbyniadau. Mae gan rai ysgolion (er enghraifft ysgolion â chweched dosbarth sy'n derbyn plant i'r chweched dosbarth) fwy nag un grŵp oedran perthnasol.

Gwahardd ddwywaith

Plentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy.

Meini prawf ar gyfer gor-alw

Rhestr o'r meini prawf y mae'n **rhaid** i awdurdod derbyn eu mabwysiadu ar gyfer ei ysgol(ion) ond a ddefnyddir dim ond pan fydd gor-alw am leoedd mewn ysgol er mwyn penderfynu pa blant fydd yn cael eu cynnig lle. Ar ôl penderfynu ar y meini prawf ar gyfer derbyn, gan gynnwys y nifer a dderbynnir, **rhaid** i'r ysgol eu cyhoeddi a hefyd rhaid eu cyhoeddi ym mhrosbectws cyfansawdd yr ALI 6 wythnos fan leiaf cyn i'r rhieni fynegi'r hyn sydd orau ganddynt.

Nifer derbyn

Nifer y lleoedd mewn ysgol y mae'n **rhaid** i'r awdurdod derbyn eu cynnig ym mhob grŵp oedran perthnasol ysgol y mae'n awdurdod derbyn drosti. Mae niferoedd derbyn yn rhan o drefniadau derbyn ysgol, a **rhaid** ymgynghori ynghylch y rhain ynghyd ag ynghylch gweddill trefniadau derbyn ysgol a'u cyhoeddi gyda'r trefniadau hynny ym mhrosbectws yr ysgol ac ym mhrosbectws cyfansawdd yr ALI.

Oedran ysgol gorfodol

Mae adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 a Gorchymyn Addysg (Dechrau Oedran Ysgol Gorfodol) 1998 yn egluro bod plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn y tymor ar ôl ei bumed pen-blwydd. Pennir mai dyddiadau'r tymhorau yw 31 Awst, 31 Rhagfyr a 31 Mawrth. Bydd plentyn yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol os bydd wedi troi'n 16 oed ar y dyddiad penodedig ar gyfer gadael ysgol, neu cyn y flwyddyn ysgol nesaf, sef y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gwasanaeth annibynnol, diduedd am ddim sy'n ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddiaeth neu fethiant gwasanaeth gan gorff cyhoeddus yng Nghymru.

Plant dan ofal cyhoeddus; Plant sy'n derbyn gofal; Plant mewn gofal

Plant sydd dan ofal ALI fel y diffinnir hynny yn adran 22 o [Ddeddf Plant 1989](#). O ran deddfwriaeth derbyn plant i'r ysgol, dim ond os yw'r ALI yn cadarnhau y bydd plentyn mewn gofal cyhoeddus pan gaiff ei dderbyn i ysgol y caiff ei ystyried yn 'blentyn sy'n derbyn gofal'.

Panel apêl

Y bobl sy'n gyfrifol am ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau i beidio â derbyn plentyn neu berson ifanci Ysgol. Maent yn hollol annibynnol ar yr ALI. Mae unrhyw benderfyniad a wneir gan banel apêl yn derfynol ac yn rhwymol ar yr awdurdod derbyn perthnasol.

Person ifanc

Plentyn sy'n ceisio cael ei dderbyn i chweched dosbarth neu ei drosglwyddo o flwyddyn 11 i flwyddyn 12 yn ei Ysgol bresennol.

Plant a oedd yn arfer derbyn gofal

Plant a oedd yn derbyn gofal, ond a beidiodd â derbyn gofal am iddynt gael eu mabwysiadu neu ddod yn destun gorchymyn preswyllo, neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

Prosbectws cyfansawdd

Y prosbectws y disgwylir i ALL ei gyhoeddi erbyn 1 Hydref a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos cyn i rieni fynegi pa ysgolion fyddai orau ganddynt. **Rhaid** i'r prosbectws hwn gynnwys trefniadau derbyn manwl pob ysgol a gynhelir yn yr ardal (gan gynnwys y niferoedd derbyn a'r dalgylchoedd a'r broses dderbyn a amserlennwyd).

Rownd Derbyn (Arferol)

Bydd y rownd derbyn arferol yn cychwyn ym mis Medi/Hydref, pan gaiff rhieni eu gwahodd i wneud cais am dderbyniad i unrhyw ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig, a daw i ben ar y dyddiad y cynigir lleoedd yn y flwyddyn ysgol cyn y derbyn neu'r trosglwyddo. Bydd fel arfer yn digwydd yn y blynyddoedd cyn blwyddyn derbyn, blwyddyn 2 a blwyddyn 6 ar gyfer awdurdodau sydd ag ysgolion babanod, ysgolion iau ac ysgolion uwchradd.

Rhestr aros

Rhestr o blant/pobl ifanc sy'n cael ei chadw a'i chynnal gan yr awdurdod derbyn, pan fydd yr ysgol wedi dyrannu pob lle; ar y rhestr, caiff plant/pobl ifanc eu rancio yn ôl trefn blaenoriaeth yn erbyn meini prawf cyhoeddedig yr ysgol ar gyfer gor-alw.

Rhiant

Mae'r diffiniad o "riant" yn adran 576 o [Ddeddf Addysg 1996](#) yn cynnwys: yr holl rieni naturiol, p'un a ydynt yn briod ai peidio; unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc, er nad yw'n rhiant naturiol; ac unrhyw berson, er nad yw'n rhiant naturiol nac yn berson â chyfrifoldeb rhiant, sydd â gofal am blentyn neu berson ifanc. Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at "riant" at ddiben y Cod hwn yn union fel y dehongliad uchod o "riant" o dan Ddeddf Addysg 1996.

Rhiant corfforaethol

Yr ALL yng Nghymru sy'n gyfrifol am wneud cais i dderbyn i ysgol ar ran plentyn sy'n derbyn gofal/plentyn mewn gofal.

Targed maint dosbarthiadau iau

Mae gan Lywodraeth Cymru darged o sicrhau bod plant rhwng 7 ac 11 oed yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau lle na cheir mwy na 30 o blant i bob athro/athrawes.

Trefniadau derbyn

Y weithdrefn gyffredinol, yr arferion a'r meini prawf ar gyfer gor-alw a ddefnyddir wrth benderfynu ynglŷn â dyrannu lleoedd mewn ysgolion.

Y pellaf oddi wrth a'r agosaf i

Plant sy'n byw bellaf oddi wrth yr ysgol briodol agosaf nesaf, sydd â lleoedd ar gael ac os yr ysgol a ffefrir yw'r ysgol agosaf iddynt.

Ysgol feithrin

Mae ysgol gynradd yn ysgol feithrin os yw'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i roi addysg i blant sydd wedi troi'n ddwy flwydd oed ond sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol (gweler adran 6 o Ddeddf Addysg 1996).

Ysgol ganol

Mae ysgolion canol yn ysgolion sy'n darparu addysg amser llawn sy'n addas ar gyfer gofynion disgyblion sydd—

- a) wedi cyrraedd oedran penodol dan 10 mlwydd a chwe mis, a
- b) o dan oedran penodol dros 12 mlwydd.

Ysgol gynradd

Mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio "ysgol gynradd" fel ysgol i ddarparu addysg gynradd, p'un a yw'n darparu addysg bellach hefyd ai peidio.

Ysgol uwchradd

Mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio "ysgol uwchradd" fel ysgol i ddarparu addysg uwchradd, p'un a yw'n darparu addysg bellach hefyd ai peidio.